HM Government

# EIN CYNLLUN I AILADEILADU:

## Strategaeth adferiad COVID-19 Llywodraeth y DU

Mai 2020

CP 239

HM Government

# EIN CYNLLUN I AILADEILADU:

## Strategaeth adferiad COVID-19 Llywodraeth y DU

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan y Prif Weinidog
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Mai 2020

CP 239

**© Hawlfraint y Goron 2020**

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu'n unol â thelerau’r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/opengovernment-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn publiccorrespondence@cabinetoffice.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-1911-0

CCS0520577950 05/20

Argraffwyd ar bapur â lleiafswm cynnwys 75% o ffibr wedi ei ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan y Grŵp APS ar ran Rheolwr Swyddfa Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys

**Rhagair gan y Prif Weinidog** ..... **3**

**1 Y sefyllfa bresennol** ..... **7**

Cyfnod un ..... 7

Symud i'r cyfnod nesaf ..... 12

Yr heriau o'n blaenau ..... 13

**2. Ein nodau: achub bywydau; achub bywoliaethau** ..... **16**

Effaith iechyd ..... 16

Effaith economaidd ..... 17

Effaith gymdeithasol ..... 18

Dichonoldeb ..... 18

Egwyddorion trosfwaol ..... 18

**3. Ein dull: adferiad graddol** ..... **20**

Cam dau: rheolaethau doethach ..... 21

Camau rheolaidd o addasiadau i fesurau cyfredol ..... 22

Canllawiau "COVID-19 Secure" ..... 23

Amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn glinigol ..... 23

Ymagwedd fwy gwahaniaethol at risg ..... 24

Mesurau adweithiol ..... 24

Cam tri: triniaeth ddibynadwy ..... 24

**4. Ein map ffordd i godi cyfyngiadau gam wrth gam** ..... **26**

Cam Un ..... 26

*Gwaith* ..... 26

*Ysgolion* ..... 27

*Teithio* ..... 27

*Gorchuddion wyneb* ..... 28

*Mannau cyhoeddus* ..... 28

*Amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn glinigol* ..... 29

*Gorfodi* ..... 30

*Y Senedd* ....30
*Teithio rhyngwladol* ....30
Cam Dau.... 31
*Cyswllt cymdeithasol a theuluol*....32
Cam Tri.... 33
**5. Pedwar ar ddeg o raglenni ategol.... 34**
1. Capasiti a model gweithredu gofal a'r GIG .... 34
2. Amddiffyn cartrefi gofal .... 35
3. Gwarchod y rhai mwyaf bregus yn ddoethach .... 37
4. Targedu mesurau diogelu ar sail risg ac yn fwy effeithiol.... 37
5. Monitro'r clefyd yn gywir a mesurau ymatebol .... 38
Cyd-ganolfan Bioddiogelwch (JBC) ....38
6. Profi ac olrhain.... 39
7. Dealltwriaeth wyddonol gynyddol.... 41
8. Canllawiau "COVID-19 Secure".... 42
9 Mesurau cadw pellter gwell.... 43
10. Cymorth economaidd a chymdeithasol i gynnal bywoliaethau ac adfer yr economi 43
11. Triniaethau a brechlynnau .... 44
12. Gweithredu ac ymwybyddiaeth ryngwladol .... 45
13. Cyfathrebu â'r cyhoedd, dealltwriaeth a gorfodaeth.... 46
14. Strwythurau llywodraethu cynaliadwy .... 47
**6. Sut gallwch chi helpu .... 48**
Ymdrech ar y cyd.... 48
Help llaw .... 48
**Atodiad A: Aros yn ddiogel y tu allan i'ch cartref .... 50**
**Atodiad B: Tabl crynhoi: grwpiau agored i niwed COVID-19 .... 53**

# Rhagair gan y Prif Weinidog

Byddwn yn cofio 2020 fel y flwyddyn pan gawsom ni ein taro, ynghyd â phob cenedl arall, gan elyn didostur na wyddem amdano gynt.

Fel gweddill y byd, rydym wedi talu'n ddrud. Ar 6ed Mai, mae 30,615 o bobl wedi colli eu bywydau, wedi iddynt brofi'n bositif am COVID-19. Mae pob un o'r marwolaethau hynny yn drasiedi i ffrindiau a theulu: mae plant wedi colli mamau a thadau; mae rhieni wedi colli merched a bechgyn, yn gynamserol. Dylem dalu teyrnged i ddioddefwyr y feirws hwn: y sawl sydd wedi marw a'u hanwyliaid sydd ar ôl.

Gallai'r pris hwnnw fod yn uwch oni bai am ymdrechion eithriadol ein GIG a'n gweithwyr gofal cymdeithasol a phe na byddem wedi gweithredu'n gyflym i gynyddu gallu'r GIG. Mae pobl ledled y DU wedi gwneud aberth eithriadol, gan roi eu bywydau ar stop a chadw pellter oddi wrth eu hanwyliaid. Fe fyddai wedi bod yn uwch pe na byddem wedi gwarchod y rhai mwyaf bregus - gan gynnig cymorth a chefnogaeth i'r rhai hynny sydd eu hangen.

Ar 3 Mawrth fe gyhoeddom ein cynllun[1], ac ers hynny mae miliynau o weithwyr meddygol, iechyd a gofal, staff milwrol, siopwyr, gweision sifil, gyrwyr danfoniadau a bysus, athrawon ac eraill di-rif wedi ei weithredu yn ddiwyd ac o ddifrif.

Dywedais y byddem yn gwneud y penderfyniadau cywir ar yr amser cywir, ar sail y wyddoniaeth. Ac fe ddywedais mai prif flaenoriaeth y cynllun hwnnw oedd i gadw'n gwlad yn ddiogel.

Trwy weithredoedd digynsail pobl y Deyrnas Unedig, rydym wedi dechrau taro'n ôl ar y feirws. Er bod y feirws wedi bygwth gorlethu'r GIG, mae ein haberth torfol wedi golygu nad oes yr un adeg ers diwedd mis Mawrth pan oedd llai na thraean o'n gwelyau gofal critigol ar gael.

Gallwn deimlo'n falch o bawb sydd wedi gweithio mor galed i greu Ysbyty Calon y Ddraig yng Nghaerdydd, Ysbyty Louisa Jordan yn Glasgow ac Ysbytai Nightingale yn Llundain, Belfast, Birmingham, Caerwysg, Harrogate, Sunderland, Bryste a Manceinion. Yn ogystal â'r ysbytai Nightingale newydd hyn, mae gan y DU dros 7,000 o welyau gofal critigol ers 4 Mai; cynnydd o'r 4,000 ar ddiwedd Ionawr.

Yn y cyfamser mae'r Llywodraeth wedi cynyddu nifer y profion dyddiol dros 1,000% yn ystod mis Ebrill - o 11,041 ar 31 Mawrth i 122,347 ar 30 Ebrill. Mae athrawon wedi gweithio gyda Google i greu'r Oak National Academy - rhith-ysgol - mewn pythefnos yn unig gan gyflwyno 2.2 miliwn o wersi yn ystod ei hwythnos gyntaf. Rydym wedi cefnogi busnesau a gweithwyr gyda chynllun ffyrlo - wedi ei greu a'i godi o ddim - sydd wedi gwarchod 6.3 miliwn o swyddi. Ar hyd a lled y wlad rydym wedi gweld dyfeisgarwch, egni ac anhunanoldeb enfawr.

---

[1] https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-action-plan/coronavirus-action-plan-a-guide-to-what-you-can-expect-across-the-uk

Nawr, gyda phob wythnos sy'n mynd heibio, rydym yn dysgu mwy am y feirws ac yn deall mwy ynghylch sut i'w drechu. Ond po fwyaf rydym yn ei ddysgu, mwyaf oll rydym yn sylweddoli cyn lleied mae'r byd yn ei deall ynghylch gwir natur y bygythiad - heblaw am y ffaith ein bod yn ei rannu a bod yn rhaid i ni weithio ar y cyd i'w drechu.

Mae ein llwyddiant wrth ffrwyno'r feirws hyd yn hyn wedi bod yn frwydr galed i'w hymladd a chaled i'w hennill. Felly am y rheswm hwnn rhaid i ni fynd yn ein blaenau gyda'r gofal mwyaf i'r cyfnod nesaf, ac osgoi dadwneud yr hyn rydym wedi ei gyflawni hyd yn hyn.

Mae'r ddogfen hon yn nodi cynllun i ailadeiladu'r DU ar gyfer byd â COVID-19. Nid yw'n golygu dychwelyd i 'normalrwydd' yn sydyn. Ac nid yw'n darparu ateb hawdd. Ac, yn anochel, bydd rhannau o'r cynllun hwn yn addasu wrth i ni ddysgu mwy am y feirws. Ond mae'n gynllun a ddylai gynnig gobaith i bobl y Deyrnas Unedig. Gobaith y medrwn ailadeiladu; gobaith y medrwn achub bywydau; gobaith y medrwn ddiogelu bywoliaethau.

Bydd yn gofyn am lawer gan bob un ohonom; ein bod yn cadw'n wyliadwrus; ein bod yn gofalu am y rhai hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf; ein bod yn cyd-dynnu fel Terynas Unedig. Byddwn yn dal i weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon i sicrhau'r canlyniadau hyn i bawb, ble bynnag maent yn byw yn y DU.

Mae'n eglur bod yr unig ddatrysiad hir dymor yn gorwedd gyda brechlyn neu driniaeth ar sail cyffuriau. Dyna pam rydym wedi helpu cyflymu hyn o'r dechrau ac yn falch o fod yn gartref i ddwy o raglenni datblygu brechlyn mwyaf addawol y byd ym Mhrifysgol Rhydychen a Choleg Imperial, gyda chefnogaeth sector fferyllol sydd yn enwog yn fyd-eang.

Mae'r cydweithredu diweddar rhwng Prifysgol Rhydychen ac AstraZeneca yn gam hanfodol a allai helpu cyflymu cynhyrchu brechlyn COVID-19. Bydd hefyd yn sicrhau os bydd y brechlyn sy'n cael ei ddatblygu gan Sefydliad Jenner Rhydychen yn gweithio, y bydd ar gael mor gynnar â phosibl, gan helpu i amddiffyn miloedd o fywydau rhag y clefyd hwn.

Rydym yn cydnabod hefyd bod problem fyd-eang yn galw am ddatrysiad byd-eang. Dyna pam mae'r Deyrnas Unedig wedi bod ar flaen y gad yn yr ymateb rhyngwladol i'r feirws, gan gyd-lywyddu yr Uwchgynhadledd Ymateb Fyd-eang i Coronavirus ar 4 Mai, gan addo £388m o gyllid ariannu ar gyfer ymchwil i frechlynnau, profion a thriniaeth gan gynnwys £250m i'r Glymblaid Arloesi Paratoi ar gyfer Epidemig, y cyfraniad mwyaf gan unrhyw wlad.

Ond er ein bod yn gobeithio am ddarganfyddiad, nid yw gobaith yn gynllun. Gall brechlyn torfol fod yn fwy na blwyddyn i ffwrdd. Yn wir, yn yr achos gwaethaf, efallai na ddown ni fyth o hyd i frechlyn. Felly mae'n rhaid i'n cynllun wynebu sefyllfa rydym ni i gyd ynddi gyda'n gilydd, am gyfnod hir, hyd yn oed tra ein bod yn gwneud popeth yn ein gallu i osgoi'r canlyniad hwnnw.

Rwy'n gwybod nad yw'r trefniadau cyfredol yn darparu datrysiad parhaol - mae'r pris yn rhy uchel, i'n bywyd cenedlaethol, i'n cymdeithas, i'n heconomi, yn wir i'n hiechyd cyhoeddus yn y cyfnod hir. A thra ei bod yn hanfodol i atal lledaeniad y feirws, rydym yn gwybod bod cymdeithas wedi talu pris uchel - yn enwedig y rhai mwyaf bregus ac amddifadus - ac wedi dod ag unigrwydd a dychryn i lawer.

Rydym wedi gofyn i chi amddiffyn y sawl rydych yn eu caru trwy wahanu eich hun oddi wrthyn nhw; ond rydym yn gwybod i hyn fod yn anodd, a bod yn rhaid i ni osgoi troi'r gwahanu hyn yn unigrwydd.

Felly mae'r cynllun hwn yn ceisio dychwelyd i fywyd mor agos i normal â phosibl, i gynifer o bobl â phosibl, mor gyflym a theg â phosibl, mewn ffordd sydd yn ddiogel ac sy'n parhau i ddiogelu ein GIG.

Y flaenoriaeth hollbwysig o hyd yw achub bywydau.

Ac i wneud hynny, rhaid i ni gydnabod y ffaith y bydd bywyd yn wahanol, o leiaf am y dyfodol rhagweladwy. Byddaf yn dal i roi eich diogelwch yn gyntaf, tra'n ceisio ail gyflwyno'r hyn sydd bwysicaf yn eich bywydau, a cheisio diogelu eich bywoliaethau.

Mae hyn yn golygu parhau i atgyfnerthu'r GIG a'r system gofal cymdeithasol fel y gall ymdopi nid yn unig â'r pwysau ddaw o du COVID-19 ond hefyd i gyflawni ymrwymiad maniffesto'r Llywodraeth i barhau i wella ansawdd gofal iechyd a gofal cymdeithasol nad yw ynghlwm â COVID-19.

Mae'n golygu ymdrech genedlaethol anferthol i ddatblygu, cynhyrchu a pharatoi i ddosbarthu brechlyn, gan weithio gyda'n ffrindiau a'n cynghreiriaid o gwmpas y byd i wneud hynny.

Mae'n golygu gwneud y gorau o'r mesurau cadw pellter cymdeithasol rydym wedi gofyn i'r deyrnas eu dilyn, fel y bydd y mesurau yn newid wrth i'r bygythiad newid hefyd - a gwneud gymaint â phosibl i atal lledaeniad yr epidemig, tra'n lleihau'r effeithiau economaidd a chymdeithasol.

Bydd hyn yn galw am system eang o brofi, olrhain a monitro lledaeniad y clefyd, o gysgodi'r rhai mwyaf bregus, o ddiogelu'r sawl sydd mewn cartrefi gofal, o amddiffyn ein ffiniau rhag iddo gael ei ail-gyflwyno, ac o ail-gynllunio ein gweithleoedd a'n mannau cyhoeddus i'w gwneud yn "COVID-19 Secure."

Mae ein GIG eisoes, yn haeddiannol, yn destun cenfigen y byd. Ond yn awr mae angen i ni adeiladau systemau eraill sydd yn arwain y byd i'n diogelu yn y misoedd i ddod.

Rhaid i mi ofyn i'r wlad fod yn amyneddgar gyda pharhad yr amhariad ar ein ffordd arferol o fyw, ond i fod yn ddiarbed wrth ddilyn ein perwyl o greu'r systemau rydym eu hangen. Y canlyniad gwaethaf oll fyddai bod y feirws yn dychwelyd allan o reolaeth - gyda'r gost i fywydau pobl a - thrwy orfod ailosod cyfyngiadau llym anochel - y gost i'r economi.

Rhaid i ni fod yn wyliadwrus, rheoli'r feirws, ac o wneud hynny, achub bywydau.


O wneud hyn yn iawn byddwn yn lleihau marwolaethau - nid yn unig o COVID-19, ond hefyd o fodloni'n holl anghenion iechyd nad ydynt yn ymwneud â COVID-19 gan na fydd ein GIG (mwy o faint) wedi ei orlethu.

Byddwn yn gwneud y mwyaf o'n hadlam yn ôl economaidd a chymdeithasol: caniatáu i fwy o bobl fwrw ymlaen â'u bywydau arferol a chael ein heconomi i weithio eto.

Yna, wrth i frechlynnau a thriniaeth ddod ar gael, byddwn yn symud i gyfnod arall, ble byddwn yn dysgu byw gyda COVID-19 am y tymor hirach heb iddo dra-arglwyddiaethu ar ein bywydau.

Dyma un o'r heriau rhyngwladol mwyaf a wynebwyd mewn cenhedlaeth. Ond mae ein gwlad fawr wedi wynebu a goresgyn treialon aruthrol cyn hyn. Rhaid i'n hymateb i'r heriau digynsail ac anrhagweladwy hyn fod yr un mor uchelgeisiol, anhunanol a chreadigol.

Diolch am eich ymdrechion hyd yma, ac am y rhan y bydd pawb yn y DU yn ei chwarae dros y misoedd i ddod.




# 1 Y sefyllfa bresennol

## Cyfnod un

Mae COVID-19 yn fygythiad newydd ac anweladwy. Mae wedi lledaenu i bron bob gwlad yn y byd.

Mae lledaeniad y feirws wedi bod yn gyflym. Yn y DU adeg y penllanw, amcangyfrifwyd bod y nifer o gleifion mewn gofal dwys yn dyblu bob 3-4 diwrnod.

Byddai'r math hwn o dwf cyflymach gyflymach wedi gorlethu'r GIG oni bai ei fod wedi cael ei ffrwyno (fel y gwelir yn Ffigur 1).





*Ffigur 1:* ***Proffil esboniadol o'r epidemig dan agweddau gwahanol*** *Effaith esboniadol o ymyriadau cymdeithasol ac ymddygiadol yn parhau am sawl mis ar epidemig Achos Gwaethaf Rhesymol.*

O'r dechrau, cafodd y Llywodraeth ei harwain gan wyddoniaeth, gan gyhoeddi ar 3 Mawrth ei chynllun[2] i ffrwyno, oedi a lliniaru unrhyw achos, a defnyddio ymchwil i hysbysu datblygiad polisi.

Mewn ymateb i gyngor gwyddonwyr y Llywodraeth, ar 7 Mawrth gofynnwyd i'r sawl â symptomau hunan-ynysu am 7 diwrnod. Ar 16 Mawrth, cyflwynodd y Llywodraeth gwarchod ar gyfer y mwyaf bregus a galwyd ar y cyhoedd ym Mhrydain i roi'r gorau i gyswllt a theithio di-angen. Ar 18 Mawrth, cyhoeddodd y Llywodraeth bod ysgolion i gau. Ar 20 Mawrth cafodd lleoliadau adloniant, lletygarwch a chanolfannau hamdden dan do eu cau. Ac ar 23 Mawrth cymerodd y Llywodraeth gamau pendant i gyflwyno'r canllawiau Aros Gartref. Gan weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, roedd yn rhaid i'r Llywodraeth gymryd camau grymus i ddiogelu'r GIG ac achub bywydau. Cyflwyno'r cynllun hwn oedd cyfnod cyntaf ymateb y Llywodraeth, ac o ganlyniad i aberth eithriadol y cyhoedd ym Mhrydain ac ymdrechion y GIG, mae'r cyfnod cyntaf hwn wedi atal lledaeniad y feirws.

Mewn epidemig, un o'r rhifau mwyaf pwysig yw R - rhif yr atgynhyrchiad. Os yw hwn yn is nag un, ar gyfartaledd bydd pob person a heintiwyd yn heintio llai nag un person arall; bydd y nifer o heintiadau newydd yn disgyn dros amser. Po isaf y rhif, cyflymaf oll bydd nifer yr heintiadau newydd yn disgyn. Pan yw R yn uwch nag un, mae'r nifer o heintiadau newydd yn cyflymu; po uchaf y rhif cyflymaf mae'r feirws yn lledu trwy'r boblogaeth.




*Ffigur 2: **Trosglwyddiad y feirws** Diagram amlinellol o drosglwyddiad y feirws gyda gwerth R o 3, ac effaith cadw pellter cymdeithasol.*

[2] https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-action-plan/coronavirus-action-plan-a-guide-to-what-you-can-expect-across-the-uk

Yn y DU roedd y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) wedi asesu bod R ar ddechrau'r epidemig rhwng 2.7 a 3.0; roedd pob person â'r clefyd yn ei roi i bron i dri pherson arall, ar gyfartaledd. Ond roedd ymateb y Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig yn golygu yn ôl asesiad diweddaraf SAGE bod R, ar draws y DU wedi gostwng i rhwng 0.5 a 0.9, sydd yn golygu bod y nifer o bobl a heintiwyd yn gostwng. Dangosir effaith cadw pellter cymdeithasol yn Ffigur 2.

Mae'r Llywodraeth nawr yn gweld:

- Bod dim ardaloedd yn y wlad lle mae'n ymddangos bod yr epidemig yn cynyddu.
- Ar 9 Mai, amcangyfrifwyd bod 136,000 o bobl yn Lloegr wedi eu heintio â COVID-19.[3]
- Roedd y nifer o gleifion mewn ysbytai yn y DU â COVID-19 dan 13,500 ar 4 Mai; 35% yn is na'r brig ar 12 Ebrill. [4]
- Roedd 27% o welyau gofal critigol y GIG yn cael eu defnyddio gan glaf COVID-19 ar 4 Mai - o'i gymharu â 51% ar 10 Ebrill.[5]

Ar yr un pryd, mae'r Llywodraeth wedi buddsoddi'n drwm yn ei gallu i fynd i'r afael â'r clefyd. Mae gallu'r GIG wedi cynyddu'n sylweddol, gyda 3,000 o welyau gofal critigol newydd ar draws y DU ers mis Ionawr [6], a phrofion dyddiol wedi cynyddu dros 1,000% yn ystod mis Mawrth - o 11,041 ar 31 Mawrth i 122,347 ar 30 Ebrill.[7]

---


3 https://ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/bulletins/coronaviruscovid19infectionsurvey/england10may2020

4Ffynhonnell: GIGE (sitrep dyddiol COVID), Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, GI. Noder: Ar gyfer ymddiriedolaethau aciwt GIG gyda Math 1 D&A yn unig.

5 Ffynhonnell: GIGLl (sitrep dyddiol COVID, sitrep dyddiol A&D), Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Llywodrath GI. Mae systemau iechyd gwahanol yn casglu'r data hwn yn wahanol; yng Nghymru cymerir bod gwelyau gofal critigol yn gymorth anadlu mewnwthiol yn cynnwys gallu ymchwydd ac achosion o COVID-19 a gadarnhawyd ac a amheuwyd; yn yr Alban mae gwelyau gofal critigol yn cynnwys gwelyau Uned Gofal Dwys a gallu ymchwydd ychwanegol. Yng Ngogledd Iwerddon, mae gwelyau gofal critigol yn cynnwys yr holl welyau Uned Gofal Dwys i oedolion (mae hyn wedi newid o adroddiadau cynt). Noder: Ar gyfer ymddiriedolaethau aciwt GIG gyda D&A Math 1 yn unig.

6 GIGLl (sitrep dyddiol COVID), Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, GI. Noder: Ar gyfer ymddiriedolaethau aciwt GIG gyda D&A Math 1 yn unig

7 https://www.gov.uk/guidance/coronavirus-covid-19-information-for-the-public. Mae'r data hwn yn gynnwys profion dan Pileri 1 a 2 ar gyfer mis Mawrth. Mae ein cyfanswm cronnol o 1,023,824 o brofion erbyn 30 Ebrill yn cymharu gyda 2.5m prawf yn yr Almaen, 724,000 yn Ffrainc, a 640,000 yn Ne Corea (cymhariaeth data ICLl o ffynonellau cenedlaethol a gyhoeddwyd)




*Ffigur 3:* ***Profion dyddiol (DU)*** *Y nifer o brofion a gynhaliwyd yn y DU hyd at 9am ar 9 Mai*

Yn drasig, fodd bynnag, mae'r nifer o farwolaethau hyd yma eleni 37,151 yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer 2015 i 2019.[8] Mae'r Llywodraeth yn hynod ofidus am effaith COVID-19 mewn cartrefi gofal, lle mae'r nifer o farwolaethau o COVID-19 a gofrestrwyd a ddigwyddodd hyd at 24 Ebrill yn 6,934,[9] a gan y gyfradd uwch o'r rhai hynny fu farw o COVID-19 o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae'n hanfodol bod y Llywodraeth yn deall pam bod hyn yn digwydd.  Dyna pam bod Iechyd Cyhoeddus Lloegr, ar 4 Mai, wedi lansio adolygiad i'r ffactorau sydd yn effeithio ar ganlyniadau iechyd o COVID-19, i gynnwys ethnigrwydd, rhyw a gordewdra. Bydd hyn yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd Mai.[10]

Ar y cyd â'r camau cadw pellter cymdeithasol a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn y cyfnod cyntaf hwn, mae hefyd wedi cymryd camau digynsail i gefnogi pobl a busnesau trwy'r argyfwng hwn a lleihau'r effeithiau dwfn a hirhoedlog ar yr economi. Roedd 800,000 o weithwyr wedi gwneud cais i'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws i helpu talu cyflogau 6.3m o swyddi, erbyn canol nos 3 Mai.[11]

Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) a Banc Lloegr wedi ei gwneud yn glir pe na byddai'r Llywodraeth wedi gweithredu fel y gwnaethant, byddai'r sefyllfa wedi bod yn waeth o lawer. Ond er hyn, mae'r effaith ar swyddi a bywoliaethau pobl wedi bod yn ddifrifol: daeth terfyn ar weithgaredd

---

[8] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/datasets/weeklyprovisionalfiguresondeathsregisteredinenglandandwales;
https://www.nrscotland.gov.uk/covid19stats;
https://www.nisra.gov.uk/publications/weekly-deaths

[9] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/datasets/weeklyprovisionalfiguresondeathsregisteredinenglandandwale

[10] https://www.gov.uk/government/news/review-into-factors-impacting-health-outcomes-from-covid-19

[11] HMRC, https://twitter.com/HMRCgovuk/status/1257324798847451136/photo/1

economaidd ar draws ystod eang iawn o economi'r DU. Mae'r Llywodraeth yn cefnogi miliynau o deuluoedd a busnesau, ond ni fedrant ddiogelu pob swydd a phob busnes.

Mae diweithdra yn codi o'r ffigyrau isel iawn ers 40 mlynedd ar ddechrau'r flwyddyn; gwnaeth tua 1.8 miliwn o gartrefi gais am Gredyd Cynhwysol rhwng 16 Mawrth a 28 Ebrill. [12] Mae'r OBR wedi cyhoeddi senario 'cyfeirio' sydd yn awgrymu, os yw'r mesurau cyfredol yn parhau mewn lle tan fis Mehefin ac yna eu llacio dros y tri mis nesaf, byddai diweithdra yn codi o fwy na 2 filiwn yn ail chwarter 2020.[13] Mae senario'r OBR yn awgrymu y gallai Cynnyrch Domestig Gros ddisgyn o 35% yn ail chwarter eleni - a gallai'r cwtogiad blynyddol fod y mwyaf mewn dros 300 mlynedd.[14]

Mae'r gweithwyr yn y sectorau a effeithir fwyaf, gan gynnwys lletygarwch a manwerthu, yn fwyaf tebygol o fod ar gyflog isel, yn iau ac yn fenywaidd. Mae teuluoedd iau hefyd yn debygol o gael eu heffeithio yn anghyfartal yn y tymor hirach gan fod tystiolaeth yn awgrymu, yn dilyn dirwasgiadau, bod y potensial o golli enillion yn y dyfodol yn fwy i bobl iau.[15]

Po hiraf mae'r feirws yn effeithio ar yr economi, mwyaf oll yw'r risgiau o greithio hir dymor a gweithgarwch economaidd is yn barhaol, gyda busnesau yn methu, diweithdra uwch yn gyson ac enillion is. Byddai hyn yn niweidio cynaliadwyedd cyllid cyhoeddus a'r gallu i ariannu gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y GIG. Byddai hefyd yn debygol o arwain at ganlyniadau iechyd corfforol a meddyliol gwael yn yr hir dymor, gyda chynnydd sylweddol ym mynychter salwch cronig.

[12] DWP, https://www.gov.uk/government/publications/universal-credit-declarations-claims-and-advances-management-information
[13] OBR, https://obr.uk/docs/dlm_uploads/Coronavirus_reference_scenario_commentary.pdf
[14] OBR, https://obr.uk/docs/dlm_uploads/Coronavirus_reference_scenario_commentary.pdf
[15] IFS, https://www.ifs.org.uk/publications/14791


## Symud i'r cyfnod nesaf

Ar 16 Ebrill cyflwynodd y Llywodraeth bum prawf ar gyfer llacio mesurau[16]. Y rhain yw:

1. Amddiffyn gallu'r GIG i ymdopi. Rhaid i ni fod yn hyderus ein bod **yn gallu darparu digon o ofal critigol a thriniaeth arbenigol** ledled y DU.
2. Gweld **cwymp parhaus a chyson yn y cyfraddau marwolaethau dyddiol** o COVID-19 fel y gallwn fod yn hyderus ein bod wedi symud y tu hwnt i'r brig.
3. Data dibynadwy gan SAGE sy'n dangos **bod cyfradd yr heintio yn gostwng i lefelau y gellir eu rheoli** yn gyffredinol.
4. Bod yn hyderus **bod yr ystod o heriau gweithredol, gan gynnwys capasiti profi a PPE, mewn llaw,** gyda'r cyflenwad yn gallu diwallu'r galw yn y dyfodol.
5. Bod yn hyderus **na fydd unrhyw addasiadau i'r mesurau cyfredol yn peryglu ail frig heintiadau** sy'n gallu llethu'r GIG.

Blaenoriaeth y Llywodraeth yw amddiffyn y cyhoedd ac achub bywydau; bydd yn sicrhau bod unrhyw addasiadau a wneir yn gydnaws â'r pum prawf hyn. Fel y nodwyd uchod, mae'r R bellach yn is nag 1 - rhwng 0.5 a 0.9 - ond o bosibl dim ond ychydig yn is nag 1. Mae'r Llywodraeth wedi gwneud cynnydd da wrth fodloni rhai o'r amodau hyn. Mae gallu gwelyau awyredig y GIG wedi cynyddu ac mae'r galw a roddir arno gan gleifion COVID-19 bellach wedi lleihau (fel y dangosir yn Ffigur 4). Mae marwolaethau yn y gymuned yn gostwng. Fodd bynnag, mae heriau gwirioneddol yn aros i'r gefnogaeth weithredol sy'n ofynnol ar gyfer rheoli'r feirws. Ni all y Llywodraeth fod yn hyderus eto na fydd addasiadau mawr nawr yn peryglu ail frig heintiau a allai orlethu'r GIG. Felly, mae'r Llywodraeth mewn sefyllfa dim ond i godi elfennau o'r mesurau presennol yn ofalus.

[16] FCO, https://www.gov.uk/government/speeches/foreign-secretarys-statement-on-coronavirus-covid-19-16-april-2020




*Ffigur 4: **Gwelyau gofal critigol gyda chleifion COVID-19 (DU)** Canran y gwelyau gofal critigol gyda chleifion COVID-19 hyd at 8 Mai.*

Mae gan wahanol rannau o'r DU ffigurau R gwahanol. Mae'r gweinyddiaethau datganoledig yn gwneud eu hasesiadau eu hunain ynghylch codi mesurau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae pob llywodraeth yn parhau i weithio gyda'i gilydd i sicrhau dull cydgysylltiedig ledled y Deyrnas Unedig.

## Yr heriau o'n blaenau

Wrth i'r Llywodraeth symud i gam nesaf ei hymateb i'r feirws, mae'n bwysig bod yn glir ynghylch yr heriau y mae'r DU, yn yr un modd â gwledydd eraill ledled y byd, bellach yn eu hwynebu.

1. **Nid argyfwng tymor byr yw hwn**. Mae'n debygol y bydd COVID-19 yn cylchredeg yn y boblogaeth ddynol yn y tymor hir, gan achosi epidemigau cyfnodol o bosibl. Yn y dyfodol agos, ni ellir diystyru'r posibilrwydd o donnau epidemig mawr heb barhau â rhai mesurau.

2. **Yn y tymor agos, ni allwn fforddio gwneud newidiadau mawr**. Er mwyn cadw R yn is nag 1 yn llwyddiannus, nid oes gennym lawer o le i newid pethau. Mae modelu SAGE yn awgrymu y bydd naill ai agor ysgolion yn llawn neu lacio pob mesur pellter cymdeithasol nawr, yn arwain at ymchwydd y feirws ac ail don a allai fod yn fwy na'r cyntaf. Mewn poblogaeth lle mae'r mwyafrif o bobl yn brin o imiwnedd, byddai'r epidemig yn dyblu mewn maint bob ychydig ddyddiau os nad oedd mesurau rheoli ar waith.

3. **Nid oes unrhyw ateb hawdd na chyflym**. Dim ond datblygu brechlyn neu gyffuriau effeithiol sy'n gallu rheoli'r epidemig hwn yn ddibynadwy a lleihau marwolaethau heb ryw fath o gadw pellter cymdeithasol neu olrhain cysylltiadau ar waith. Yn y tymor canolig, byddai caniatáu i'r feirws ymledu mewn modd afreolus nes sicrhau imiwnedd naturiol ar

lefel y boblogaeth yn rhoi pwysau enfawr ar y GIG. Nid yw hyn wedi bod yn rhan o strategaeth y Llywodraeth ar unrhyw adeg. Os gellir datblygu brechlynnau mae ganddynt y potensial i atal y clefyd rhag lledaenu; byddai triniaethau'n llai tebygol o atal y lledaeniad ond gallent wneud y firws yn llai peryglus.


4. **Mae'n rhaid i'r wlad ostwng nifer yr achosion newydd.** Bydd dal R o dan 1 yn lleihau nifer yr achosion newydd i lawr i lefel sy'n caniatáu am olrhain achosion newydd yn effeithiol; bydd hyn yn ei dro yn galluogi cynnal cyfanswm y trosglwyddiadau dyddiol ar lefel isel.

5. **Mae dealltwriaeth wyddonol y byd o'r feirws yn dal i ddatblygu'n gyflym.** Rydym yn dal i ddysgu am bwy sydd â'r risg bersonol fwyaf a sut mae'r feirws yn cael ei ledaenu. Nid yw'n bosibl gwybod yn fanwl gywir beth yw effeithiolrwydd cymharol mesurau cysgodi ac atal penodol; na faint o bobl yn y boblogaeth a heintir neu sydd wedi'u heintio yn asymptomatig.

6. **Mae’n anodd canfod lledaeniad y feirws’**. Mae rhai pobl yn cario'r afiechyd yn asymptomatig, a allai olygu y gallant ledaenu'r feirws heb wybod eu bod yn heintus. Yn aml nid yw'r rhai sy'n datblygu symptomau yn dangos arwyddion eu bod wedi'u heintio am oddeutu pum niwrnod; mae cyfran sylweddol o heintiau yn digwydd yn ystod yr amser hwn, yn arbennig yn y ddau ddiwrnod cyn i'r symptomau ddechrau. Gall hyd yn oed y rhai nad ydynt mewn perygl o niwed sylweddol eu hunain beri risg wirioneddol o heintio eraill yn anfwriadol. Dyma pam mai rhan sylweddol o gam nesaf ymateb y Llywodraeth fydd gwella ei phroses monitro ac ymateb i heintiau newydd.

7. **Mae'n rhaid i'r Llywodraeth baratoi ar gyfer yr heriau a ddaw yn sgil tymor ffliw'r gaeaf.** Bydd hyn yn cael effeithiau eang, o rwystro unrhyw ymdrechion i olrhain y feirws (oherwydd mae cymaint o bobl heb COVID-19 yn debygol o fod â symptomau sy'n debyg i COVID-19), i gynyddu'r galw am welyau ysbyty.

8. **Mae'r cynllun yn dibynnu ar gydymffurfiad eang parhaus.** Hyd yn hyn mae pobl wedi cadw at y mesurau yn dda, fel y dangosir yn Ffigur 5 isod. Fodd bynnag, er mwyn osgoi symud R uwchlaw 1 a'r epidemig yn cynyddu mewn modd afreolus, mae lefelau cydymffurfio uchel iawn yn hanfodol. Mae'r risg yn un anghytbwys; os bydd y DU yn symud yn ôl i gynnydd cyflymach gyflymach yn lledaeniad yr haint, gallai fynd yn afreolus yn gyflym.




*Ffigur 5:* ***Data tueddiadau symudedd ar gyfer y DU*** *yn seiliedig ar gyfartaledd treigl saith diwrnod hyd at 7 Mai*

Gan adlewyrchu'r heriau hyn, mae gweddill y ddogfen hon yn nodi map ffordd gofalus i leddfu'r mesurau presennol mewn ffordd ddiogel a phwyllog, yn amodol ar reoli'r feirws yn llwyddiannus a gallu monitro ac ymateb i'w ledaeniad. Bydd y map ffordd yn cael ei adolygu'n gyson wrth i'r epidemig, a dealltwriaeth y byd ohono, ddatblygu.

# 2. Ein nodau: achub bywydau; achub bywoliaethau

Nod y Llywodraeth oedd achub bywydau. Mae hyn yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth sydd wrth wraidd y cynllun hwn.

Hefyd rhaid i'r Llywodraeth geisio lleihau'r niwed arall y mae'n gwybod bod y mesurau cyfyngol presennol yn ei achosi - i les, bywoliaethau ac iechyd ehangach pobl. Ond mae risg, pe byddai'r Llywodraeth yn rhuthro i wyrdroi'r mesurau hyn, y byddai'n sbarduno ail achos a allai lethu'r GIG. Felly mae'n rhaid i'r DU addasu i realiti newydd - un lle gall cymdeithas ddychwelyd i normal cyn belled ag y bo modd; lle gall plant fynd i'r ysgol, gall teuluoedd weld ei gilydd a gellir amddiffyn bywoliaethau, tra hefyd yn parhau i amddiffyn rhag lledaeniad y clefyd.

Felly nod y Llywodraeth sydd wrth ganol y cynllun hwn yw:

**dychwelyd bywyd I sefyllfa mor agos at normal â phosib, i gynifer o bobl â phosib, mor gyflym a theg â phosib…**

**… mewn ffordd sy'n osgoi epidemig newydd, yn lleihau'r nifer o fywydau a gollir ac yn sicrhau'r canlyniadau iechyd, economaidd a chymdeithasol gorau posibl.**

I wneud hyn, bydd angen i'r Llywodraeth ailgynllunio'r mesurau cadw pellter cymdeithasol cyfredol yn raddol gyda mesurau newydd, craffach sy'n adlewyrchu lefel y risg ar yr adeg honno, a dirwyn cynlluniau cymorth economaidd i ben yn ofalus tra bod pobl yn cael eu dychwelyd yn ôl i'r gwaith yn raddol. Bydd y Llywodraeth yn gwneud hyn trwy ystyried tri phrif ffactor.

## Effaith iechyd

Yr ystyriaeth gyntaf yw iechyd y genedl.

Mae'n rhaid i'r Llywodraeth ystyried canlyniadau iechyd cyffredinol, nid dim ond y rhai a achosir yn uniongyrchol gan COVID-19. Yn unol â chyngor y Prif Swyddog Meddygol a GIG Lloegr, bydd y Llywodraeth yn ystyried:

- **Marwolaethau uniongyrchol COVID-19**, y rhai sy'n marw o'r feirws, er gwaethaf derbyn y gofal meddygol gorau.
- **Niwed anuniongyrchol** yn deillio o wasanaethau brys y GIG yn cael eu gorlethu ac felly'n darparu gofal sylweddol llai effeithiol i'r rheini â COVID-19 ac i'r rheini ag argyfyngau meddygol eraill.

- **Cynnydd mewn marwolaethau neu afiechyd arall o ganlyniad i fesurau y bu'n rhaid i ni eu cymryd** gan gynnwys gohirio rhaglenni gofal meddygol ac iechyd cyhoeddus pwysig ond nad ydynt yn rhai brys tra bod y GIG yn dargyfeirio adnoddau i reoli'r epidemig, neu o ganlyniadau anfwriadol megis pobl yn penderfynu i beidio â cheisio triniaeth pan fydd ei hangen arnynt, ac o fwy o unigedd ac effeithiau ar iechyd meddwl;[17] ac
- Effeithiau iechyd **tymor hir unrhyw gynnydd mewn amddifadedd** sy'n deillio o effeithiau economaidd, gan fod cysylltiad cryf rhwng amddifadedd ac afiechyd.[18]

Yn yr un modd â llawer o heintiau anadlol eraill, mae'n amhosibl gwarantu na fydd neb yn cael ei heintio â'r feirws hwn yn y dyfodol, neu na fydd yr un o'r heintiau hynny yn arwain at farwolaethau trasig. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yn glir nad oes unrhyw ran o'r cynllun hwn sy'n rhagdybio lefel 'dderbyniol' o heintio neu farwolaethau.

Y bygythiad mwyaf i fywyd o hyd yw'r risg o ail frig sy'n gorlethu'r system gofal iechyd yn ystod y gaeaf hwn, pan fydd o dan fwy o bwysau ac mae angen i'r GIG ddarparu gofal nad yw'n frys o hyd. Byddai ail frig hefyd yn sbarduno dychweliad o'r niwed iechyd, economaidd a chymdeithasol ehangach sy'n gysylltiedig â'r achos cyntaf. Nod y cynllun hwn yw cadw'r risg hon i'r lleiaf.

## Effaith economaidd

Yr ail ystyriaeth yw amddiffyn ac adfer bywoliaethau pobl a gwella safonau byw pobl.

Yn y pen draw, economi gref yw'r ffordd orau i **amddiffyn swyddi pobl** a sicrhau y gall y Llywodraeth ariannu **gwasanaethau cyhoeddus hanfodol y wlad** gan gynnwys yr ymateb gofal iechyd. Mae hyn yn golygu y bydd y Llywodraeth yn ystyried:

- yr effaith economaidd tymor byr, gan gynnwys nifer y bobl sy'n gallu **dychwelyd i'r gwaith lle mae'n ddiogel gwneud hynny**, gan weithio gyda busnesau ac undebau i helpu pobl i fynd yn ôl i weithleoedd yn ddiogel;
- dyfodol **economaidd hirdymor y wlad**, a allai gael ei niweidio gan bobl a fydd allan o swyddi a chan ansolfeddau, a buddsoddi i gefnogi adlam economaidd yn ôl;
- cynaliadwyedd **cyllid cyhoeddus** fel y gall y Llywodraeth dalu am wasanaethau cyhoeddus a'r ymateb gofal iechyd;
- **sefydlogrwydd ariannol** fel y gall y banciau ac eraill barhau i ddarparu cyllid i'r economi;
- **yr effeithiau dosbarthiadol,** ac felly ystyried mesurau'r Llywodraeth yn ofalus ar wahanol grwpiau incwm ac oedran, sectorau busnes a rhannau o'r wlad.

---

[17] Er enghraifft, yn Lloegr bu cwymp o 53% mewn atgyfeiriadau canser brys ar gyfer yr wythnos yn cychwyn 27 Ebrill a gostyngiad o 20% mewn triniaethau canser ar gyfer yr wythnos yn cychwyn 20 Ebrill (y diweddaraf sydd ar gael). (Ffynhonnell: GIG Lloegr)

[18] Yn ddiweddar, amcangyfrifodd yr IFS fod y cwymp mewn cyflogaeth dros y 12 mis ar ôl argyfwng 2008 wedi achosi cynnydd o oddeutu 900,000 yn nifer yr achosion o salwch cronig yn y rhai o oedran gweithio. Mae'r IFS yn defnyddio tystiolaeth gan Janke et al (2020) a ddangosodd fod cynnydd o 1 y cant mewn cyflogaeth yn arwain at gwymp o 2 y cant ym mynychder cyflyrau iechyd cronig ymhlith y boblogaeth o oedran gweithio.

Hefyd mae angen i'r Llywodraeth amddiffyn cystadleurwydd economaidd rhyngwladol y DU. Mae hyn yn golygu, lle bo hynny'n bosibl, ceisio cyfleoedd economaidd newydd, er enghraifft ar gyfer sectorau gweithgynhyrchu fferyllol a dyfeisiau meddygol y DU sy'n arwain y byd.

## Effaith gymdeithasol

Y drydedd ystyriaeth yw effaith ehangach y mesurau cadw pellter cymdeithasol ar sut mae'r cyhoedd yn byw eu bywydau beunyddiol. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gall mesurau cadw pellter cymdeithasol waethygu heriau cymdeithasol, o'r effeithiau negyddol ar iechyd meddwl pobl a'u teimladau o gael eu hynysu, i risgiau cam-drin domestig a thwyll ar-lein. Mae'n rhaid i'r Llywodraeth weithredu i leihau'r costau cymdeithasol niweidiol - eu difrifoldeb a'u hyd - i'r nifer fwyaf o bobl bosibl. Mae hyn yn golygu y bydd y Llywodraeth yn ystyried:

- **nifer y diwrnodau o addysg** y mae plant yn eu colli;
- **tegwch** unrhyw gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd, yn arbennig yr effaith ar y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan fesurau cadw pellter cymdeithasol; a
- phwysigrwydd cynnal cryfder y **gwasanaethau cyhoeddus a'r sefydliadau dinesig y mae'r DU yn dibynnu** arnynt, yn arbennig y rhai sy'n amddiffyn neu'n cefnogi pobl fwyaf bregus cymdeithas.

## Dichonoldeb

Yn sail i'r tri ffactor hyn mae cyfyngiad ymarferol hanfodol: ystyried risg a dichonoldeb unrhyw gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd. Mae hyn yn cynnwys ystyried risg dechnolegol unrhyw lwybrau y mae'r Llywodraeth yn eu dilyn, y llinellau amser i weithredu technolegau newydd, a gallu'r Llywodraeth i weithio gyda phartneriaid byd-eang. Nid yw llawer o'r hyn sy'n ddymunol yn bosibl eto. Felly mae cynllun y Llywodraeth yn ystyried yn ofalus pryd a ble i gymryd risg. Ni fydd dull 'dim risg' yn gweithio yn yr amseroedd digyffelyb hyn. Bydd rhaid i'r Llywodraeth fuddsoddi mewn technolegau arbrofol, y mae rhai ohonynt yn debygol o beidio â gweithio yn ôl y bwriad, neu gallent hyd yn oed brofi'n ddi-werth. Ond nid yw aros am sicrwydd llwyr yn opsiwn.

## Egwyddorion trosfwaol

Yn sail i'r ffactorau uchod mae rhai egwyddorion arweiniol:

(1) **Cael ei llywio gan y wyddoniaeth.** Bydd y Llywodraeth yn parhau i gael ei harwain gan y cyngor gwyddonol a meddygol gorau er mwyn sicrhau ei bod yn gwneud y peth iawn ar yr adeg iawn.

(2) **Tegwch.** Bydd y Llywodraeth, bob amser, yn ceisio bod yn deg â phob person a grŵp.

(3) **Cymesuredd.** Bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod yr holl fesurau a gymerir i reoli'r feirws yn gymesur â'r risg a gyflwynir, o ran y goblygiadau cymdeithasol ac economaidd.

(4) **Preifatrwydd.** Bydd y Llywodraeth bob amser yn ceisio amddiffyn preifatrwydd personol a bod yn dryloyw gyda phobl wrth ddeddfu mesurau na fyddai, ac eithrio'r digwyddiad hwn unwaith mewn canrif, byth yn cael ei ystyried fel rheol.

(5) **Tryloywder.** Bydd y Llywodraeth yn parhau i fod yn agored gyda'r cyhoedd a seneddwyr, gan gynnwys trwy sicrhau bod y cyngor gwyddonol a thechnegol perthnasol ar gael. Bydd y Llywodraeth yn onest ynglŷn â lle mae'n ansicr ac yn gweithredu mewn perygl, a bydd yn dryloyw ynghylch y dyfarniadau y mae'n eu gwneud a'r sail ar eu cyfer.

Wrth ddiwallu'r egwyddorion hyn, bydd Llywodraeth y DU yn gweithio mewn cydweithrediad agos â'r gweinyddiaethau datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon i wneud hwn yn ymateb ledled y DU: yn drefnus, yn gydlynol ac yn gynhwysfawr. Rhan o'r dull hwnnw ledled y DU fydd cydnabod y gallai'r feirws fod yn lledaenu ar gyflymder gwahanol mewn gwahanol rannau o'r DU. Efallai y bydd angen i fesurau newid mewn gwahanol ffyrdd ac ar wahanol adegau. Am gyngor, gweler y canllawiau a osodwyd gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru.

Bydd cydbwyso'r gwahanol ystyriaethau yn golygu rhai dewisiadau anodd. Er enghraifft, bydd y Llywodraeth yn wynebu dewis rhwng maint a chyflymder y rhyddid y mae rhai pobl risg is yn ei fwynhau a'r risg i eraill: pe byddai pawb sydd â risg bersonol is yn cael ailafael yn eu bywydau yn union fel cyn yr achos, byddai hyn yn cynyddu lefel y risg i'r rhai sy'n fwy agored i niwed.

# 3. Ein dull: adferiad graddol

Wrth i'r DU adael cam un o ymateb y Llywodraeth, lle mae'r Llywodraeth wedi ceisio cynnwys, oedi, ymchwilio a lliniaru, bydd yn symud trwy ddau gam arall.

**Cam dau: Rheolaethau doethach**
Hyd nes y gall y DU gyrraedd cam tri, bydd y Llywodraeth yn disodli'r cyfyngiadau cymdeithasol presennol yn raddol â mesurau doethach sy'n cydbwyso ei nodau mor effeithiol â phosibl.

Bydd y Llywodraeth yn deddfu mesurau sy'n cael yr effaith fwyaf ar reoli'r epidemig ond gyda'r costau iechyd, economaidd a chymdeithasol isaf.

Bydd y rhain yn cael eu datblygu a'u cyhoeddi mewn 'camau' cyfnodol dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, gan geisio cynyddu'r cyflymder y codir cyfyngiadau arno, ond ag amodau llym i symud o bob cam i'r un nesaf. Bydd y Llywodraeth yn cynnal opsiynau i ymateb i gynnydd mewn trosglwyddiadau, gan gynnwys trwy ail-osod cyfyngiadau os bydd angen.

Dros amser, bydd y Llywodraeth yn gwella effeithiolrwydd y mesurau hyn ac yn cyflwyno mesurau mwy adweithiol neu leol trwy fonitro'r clefyd yn eang ac yn gywir. Bydd hynny'n galluogi codi mwy o fesurau i fwy o bobl, yn gyflymach. Yn y cyfamser, bydd y Llywodraeth yn parhau i gynyddu gallu'r GIG a gofal cymdeithasol i sicrhau gofal i bob claf COVID-19 wrth adfer darpariaeth gofal iechyd 'normal'.

**Cam tri: Triniaeth ddibynadwy**
Mae'n annhebygol iawn y bydd y feirws yn cael ei ddileu o'r DU (ac yn fyd-eang). Ond bydd cyflwyno triniaethau effeithiol a/neu frechlyn yn caniatáu i ni symud i gyfnod lle gellir lleihau effaith y feirws i lefelau y gellir eu rheoli.

Er mwyn cyflawni'r cam hwn cyn gynted â phosibl, mae'r Llywodraeth yn buddsoddi mewn ymchwil, yn datblygu partneriaethau rhyngwladol ac yn sefydlu'r seilwaith i gynhyrchu a dosbarthu triniaethau a/neu frechlyn ar y raddfa ofynnol.

## Cam dau: rheolaethau doethach

Trwy gydol y cam hwn, bydd angen i bobl leihau lledaeniad y clefyd trwy arferion hylendid da parhaus: golchi dwylo, cadw pellter cymdeithasol a diheintio arwynebau y mae eraill yn cyffwrdd â hwy yn rheolaidd. Bydd y rhain ar waith am gryn amser.

Mae'n rhaid i nifer y cysylltiadau cymdeithasol y mae pobl yn eu gwneud bob dydd barhau i fod yn gyfyngedig, rhaid i amlygiad grwpiau sy'n agored i niwed barhau i gael ei leihau o'r lefelau arferol, a bydd angen i unigolion symptomatig a'r rhai sydd wedi cael diagnosis gael eu hynysu o hyd.

Dros amser, bydd cyswllt cymdeithasol yn cael ei wneud yn llai heintus trwy:


- **gwneud cyswllt o'r fath yn fwy diogel** (gan gynnwys trwy ail-ddylunio lleoedd cyhoeddus a gwaith, a'r rhai sydd â symptomau'n hunan-ynysu) er mwyn lleihau'r siawns o heintio fesul cyswllt;
- **lleihau cyswllt cymdeithasol pobl heintiedig** trwy ddefnyddio profion, olrhain a monitro'r haint i ganolbwyntio cyfyngiadau yn well yn ôl risg; ac
- **atal mannau trafferthus rhag datblygu** trwy ganfod achosion heintio ar lefel fwy lleol ac ymyrryd yn gyflym â mesurau wedi'u targedu.

Yn y tymor agos, mae graddfa'r cysylltu cymdeithasol o fewn y boblogaeth yn parhau i fod yn ddirprwy ar gyfer trosglwyddo'r firws; po leiaf y cysylltiadau, yr isaf yw'r risg.

Bydd datblygu mesurau cadw pellter cymdeithasol craffach yn golygu bod angen i'r Llywodraeth gydbwyso cysylltiadau cynyddol wrth iddi lacio'r mesurau mwyaf aflonyddol â chyflwyno mesurau newydd i reoli risg, er enghraifft trwy dynhau mesurau eraill. Po fwyaf y cysylltiadau mewn un maes - er enghraifft, os bydd gormod o bobl yn dychwelyd i weithleoedd corfforol - y lleiaf sy'n bosibl mewn mannau eraill - er enghraifft, ni all cymaint o blant ddychwelyd i'r ysgol. Po isaf yw lefel yr heintio ar bob pwynt mewn amser, y mwyaf o gysylltu cymdeithasol fydd yn bosibl.

## Camau rheolaidd o addasiadau i fesurau cyfredol

Dros y misoedd sy'n dod, bydd y Llywodraeth felly'n cyflwyno ystod o addasiadau i reolaethau cadw pellter cymdeithasol cyfredol, gan amseru'r rhain yn ofalus yn unol â lledaeniad cyfredol y feirws a gallu'r Llywodraeth i sicrhau diogelwch. Bydd y rhain yn digwydd mewn "camau," fel y nodir yn y bennod nesaf, ag amodau llym i symud yn ddiogel o bob cam i'r un nesaf.




*Ffigur 6: **Camau addasu i fesurau cadw pellter cymdeithasol cyfredol** Wrth i'r llwyth achosion ostwng, gellir cymryd gwahanol gamau i addasu mesurau cadw pellter cymdeithasol.*

Gallai pob cam gynnwys ychwanegu addasiadau newydd i'r cyfyngiadau presennol neu fynd â rhai addasiadau ymhellach (fel y dangosir yn Ffigur 6). Er enghraifft, er bod ailagor lleoedd a gweithgareddau awyr agored (yn amodol ar gadw pellter cymdeithasol yn barhaus) yn dod yn gynharach yn y map ffordd oherwydd bod y risg o drosglwyddo yn yr awyr agored yn sylweddol is, mae'n debygol y bydd ailagor mannau cyhoeddus a chyfleusterau hamdden dan do (fel campfeydd a sinemâu), safleoedd y mae eu pwrpas craidd yw rhyngweithio cymdeithasol (megis clybiau nos), lleoliadau sy'n denu torfeydd mawr (megis stadia chwaraeon), a sefydliadau gofal personol lle mae cyswllt agos yn gynhenid (megis salonau harddwch) ond yn gwbl bosibl yn sylweddol hwyrach gan ddibynnu ar y gostyngiad yn nifer yr heintiau.

Mae'r bennod nesaf yn cyflwyno map ffordd dangosol, ond bydd yr union amserlen ar gyfer yr addasiadau hyn yn dibynnu ar y risg heintio ar bob pwynt, ac effeithiolrwydd mesurau lliniaru'r Llywodraeth megis olrhain cysylltiadau.

Dros yr wythnosau a'r misoedd sy'n dod, bydd y Llywodraeth yn monitro effaith pob addasiad yn agos, gan ddefnyddio'r effaith ar yr epidemig i fesur y cam nesaf priodol.

I ddechrau, bydd angen i'r bwlch rhwng camau fod yn sawl wythnos, er mwyn caniatáu digon o amser i fonitro. Fodd bynnag, wrth i'r systemau monitro cenedlaethol ddod yn fwy manwl gywir ac ar raddfa fwy, gan alluogi asesiad cyflymach o'r newidiadau, gallai'r amser ymateb hwn leihau.

Gall cyfyngiadau gael eu haddasu gan y gweinyddiaethau datganoledig ar gyflymder gwahanol yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon oherwydd bydd lefel yr heintio - ac felly'r risg - yn wahanol. Yn yr un modd yn Lloegr, gall y Llywodraeth addasu cyfyngiadau mewn rhai rhanbarthau cyn eraill: ni ddylai mwy o risg yng Nghernyw arwain at gyfyngiadau anghymesur yn Newcastle os yw'r risg yn is.

## Canllawiau "COVID-19 Secure"

Mae llawer o fesurau yn galw am ddatblygu canllawiau diogelwch newydd sy'n nodi sut y gellir addasu pob math o ofod corfforol er mwyn gweithredu'n ddiogel. Mae'r Llywodraeth wedi bod yn ymgynghori â sectorau perthnasol, cyrff diwydiant, awdurdodau lleol, undebau llafur, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr ar eu datblygu a byddant yn eu rhyddhau yr wythnos hon.

Byddant hefyd yn cynnwys mesurau a oedd yn annhebygol o fod yn effeithiol pan oedd y feirws mor eang fel bod angen mesurau llawn i aros gartref, ond bellac gallai hynny gael rhywfaint o effaith wrth i'r cyhoedd gynyddu nifer y cysylltiadau cymdeithasol - gan gynnwys, er enghraifft, cynghori defnyddio gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus caeedig megis ar drafnidiaeth gyhoeddus a chyflwyno cyfyngiadau llymach ar deithwyr rhyngwladol.

Mae llawer o fusnesau ledled y DU eisoes wedi bod yn hynod arloesol wrth ddatblygu dulliau newydd, gwydn o wneud busnes, megis symud ar-lein neu addasu i fodel danfon. Mae gan lawer o'r newidiadau hyn, megis mwy o weithio gartref, fuddion sylweddol, er enghraifft, lleihau'r ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â chymudo. Bydd angen i'r Llywodraeth barhau i ofyn i'r holl gyflogwr a gweithredwyr lleoedd cymunedol fod yn arloesol wrth ddatblygu dulliau newydd; bydd Ymchwil ac Arloesi’r DU (UKRI) yn croesawu ceisiadau grant am gynigion i ddatblygu technolegau a dulliau newydd sy’n helpu’r DU i liniaru effaith y feirws hwn.

## Amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn glinigol

Mae rhai pobl wedi derbyn llythyr gan y GIG, eu clinigwr neu eu meddyg teulu yn dweud wrthynt, o ganlyniad i gael rhai cyflyrau meddygol, eu bod yn cael eu hystyried **yn eithriadol o agored i niwed yn glinigol.**[19] Trwy gydol y cyfnod hwn, bydd angen i'r Llywodraeth barhau â rhaglen helaeth o warchod ar gyfer y grŵp hwn tra bydd y feirws yn parhau i gylchredeg.[20] Hefyd bydd yn rhaid i'r Llywodraeth addasu ei diogelwch ar gyfer lleoliadau bregus eraill megis carchardai a chartrefi gofal, [21]ar sail dealltwriaeth o'r risg.

Bydd y rhai hynny yn y garfan sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol yn parhau i gael eu cynghori i warchod eu hunain am gryn amser eto, ac mae'r Llywodraeth yn cydnabod yr

---

[19] Gellir dod o hyd i gyngor i'r rheini sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol ac sy'n gorfod gwarchod eu hunain yma: https://www.gov.uk/government/publications/guidance-on-shielding-and-protecting-extremely-vulnerable-persons-from-covid-19/guidance-on-shielding-and-protecting-extremely-vulnerable-persons-from-covid-19

[20] https://www.gov.uk/government/publications/guidance-on-shielding-and-protecting-extremely-vulnerable-persons-from-covid-19/guidance-on-shielding-and-protecting-extremely-vulnerable-persons-from-covid-19

[21] https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-covid-19-adult-social-care-action-plan

anawsterau a ddaw yn sgil hyn i'r rhai hynny yr effeithir arnynt. Dros yr wythnosau sy'n dod, bydd y Llywodraeth yn parhau i gyflwyno mwy o gefnogaeth a chymorth i'r unigolion hyn fel bod ganddynt yr help sydd ei angen arnynt wrth iddynt ddal i gael eu gwarchod. A bydd y Llywodraeth yn cyflwyno mesurau pellach i gefnogi'r rhai sy'n darparu'r gwarchod - er enghraifft, trwy barhau i flaenoriaethu gweithwyr gofal ar gyfer profi a chyfarpar diogelu.

### Ymagwedd fwy gwahaniaethol at risg

Wrth i'r DU symud i gam dau, bydd y Llywodraeth yn parhau i gydnabod nad yw risg pawb na phob grŵp yr un peth; mae lefel y bygythiad a gyflwynir gan y feirws yn amrywio ar draws y boblogaeth, mewn ffyrdd y mae'r Llywodraeth dim ond yn eu deall yn rhannol ar hyn o bryd.

Wrth i'r Llywodraeth ddysgu mwy am y clefyd a'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig, mae'n disgwyl yn raddol wneud yr asesiad risg yn fwy perthnasol, gan roi hyder i rai a gynghorwyd o'r blaen i warchod y gallent gymryd mwy o risg; a nodi'r rhai hynny a allai fod am fod yn fwy gofalus. Bydd angen i'r Llywodraeth ystyried y risg i'r hunan, a'r risg o drosglwyddo i eraill.

**Mae'n hanfodol bod y rhai sy'n dangos symptomau, waeth pa mor ysgafn ydynt, yn gorfod parhau i hunan-ynysu gartref**, fel nawr, a bod rheolau cwarantîn yr aelwyd yn parhau i fod yn berthnasol. Fodd bynnag, wrth i'r Llywodraeth gynyddu argaeledd a chyflymder profion swabio, bydd yn gallu cadarnhau'n gyflymach a oes gan achosion a amheuir sy'n dangos symptomau COVID-19 ai peidio. Bydd hyn yn lleihau'r cyfnod o hunanynysu ar gyfer y rhai nad oes ganddynt COVID-19 ac aelodau eu teuluoedd.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn rhagweld targedu cyfyngiadau yn y dyfodol yn fwy manwl gywir nag ar hyn o bryd, lle bo hynny'n bosibl, er enghraifft llacio mesurau mewn rhannau o'r wlad sydd â risg is, ond eu parhau mewn lleoliadau risg uwch pan fydd y data'n awgrymu bod angen gwneud hyn. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd achosion lleol dros y misoedd nesaf a fydd yn galw am weithredu mesurau adweithiol yn adweithiol er mwyn cadw rheolaeth ar drosglwyddo.

### Mesurau adweithiol

Os yw'r data'n awgrymu bod y feirws yn lledaenu eto, bydd yn rhaid i'r Llywodraeth dynhau cyfyngiadau, o bosib ar fyr rybudd. Y nod yw osgoi hyn trwy symud yn raddol a thrwy fonitro effaith pob cam y mae'r Llywodraeth yn ei gymryd yn ofalus.

Mae'r cyngor gwyddonol yn glir bod cwmpas i symud tuag yn ôl; wrth i gyfyngiadau gael eu llacio, os na fydd pobl yn aros yn effro ac yn defnyddio’r rheini sy’n dal yn eu lle yn ddiwyd, gallai trosglwyddiadau gynyddu, byddai R yn symud uwchlaw un yn gyflym, a byddai angen ail-osod cyfyngiadau.

## Cam tri: triniaeth ddibynadwy

Mae'r ddynoliaeth wedi profi'n hynod effeithiol wrth ddod o hyd i wrthfesurau meddygol i glefydau heintus, ac mae'n debygol o wneud hynny ar gyfer COVID-19; ond gallai hyn gymryd amser. Cyn gynted â phosibl, rhaid i'r Llywodraeth symud i ddatrysiad mwy cynaliadwy, lle gellir codi'r cyfyngiadau parhaus a ddisgrifir uchod yn gyfan gwbl. Er mwyn galluogi hyn, rhaid i'r Llywodraeth ddatblygu, treialu, gweithgynhyrchu a dosbarthu triniaethau neu frechlynnau dibynadwy mor gyflym â phosibl.

Mae'r feirws yn annhebygol o farw allan yn ddigymell; ac nid yw'n debygol o gael ei ddileu. Dim ond un clefyd heintus dynol - y frech wen - sydd erioed wedi'i ddileu. Felly mae'n rhaid i'r Llywodraeth ddatblygu naill ai driniaeth sy'n ein galluogi i'w reoli fel clefydau difrifol eraill neu gael pobl i gael imiwnedd trwy frechu.

Mae'n bosibl na fydd brechlyn diogel ac effeithiol yn cael ei ddatblygu am amser hir (neu hyd yn oed byth), felly wrth wneud y mwyaf o'r siawns y bydd hyn yn digwydd yn gyflym lle gall y Llywodraeth wneud hynny, rhaid iddi beidio â dibynnu ar y posibilrwydd y bydd hyn yn digwydd. Ar hyn o bryd mae dros 70 o raglenni credadwy i ddatblygu brechlyn ledled y byd ac mae treial dynol cyntaf y DU wedi cychwyn ym Mhrifysgol Rhydychen.

Hyd yn oed os nad yw'n bosibl datblygu brechlyn effeithiol, efallai y bydd yn bosibl datblygu triniaethau cyffuriau i leihau effaith cael COVID-19, fel y gwnaed ar gyfer llawer o glefydau heintus eraill, yn amrywio o niwmonias eraill a heintiau herpes, i HIV a malaria.

Er enghraifft, gallai cyffuriau drin y feirws ei hun ac atal datblygiad y clefyd, cael ei ddefnyddio i gyfyngu ar y risg o gael eich heintio, neu gael ei ddefnyddio mewn achosion difrifol i atal datblygu i glefyd difrifol, cwtogi amser mewn gofal dwys a lleihau'r siawns o farw.

Efallai y bydd ymchwilwyr yn dod o hyd i rai triniaethau effeithiol ar unwaith - er enghraifft o ailbwrpasu cyffuriau sy'n bodoli eisoes - neu efallai na fyddant yn gwneud hynny am amser hir. Ni fydd pob triniaeth sy'n cael effaith yn allweddol; y cyngor gwyddonol gorau yw ei bod yn debygol y bydd yn rhaid cynllunio a datblygu unrhyw gyffuriau sy'n lleihau marwolaethau yn sylweddol neu sy'n ddigon amddiffynnol i newid hynt yr epidemig yn benodol ar gyfer COVID-19, ac y bydd hyn yn cymryd amser, heb sicrwydd llwyddiant.

Fodd bynnag, er y bydd llawer o'r rhain yn methu, mae buddion economaidd a chymdeithasol llwyddiant yn golygu y bydd y Llywodraeth yn gwneud popeth o fewn ei gallu i ddatblygu a chyflwyno triniaethau a brechlynnau ar y gyfradd gyflymaf bosibl; mae'r ail gam yn fodd i reoli pethau nes bod y DU yn cyrraedd y pwynt hwn.

# 4. Ein map ffordd i godi cyfyngiadau gam wrth gam

Mae gan y Llywodraeth amserlen wedi'i chynllunio'n ofalus ar gyfer codi cyfyngiadau, gyda dyddiadau a ddylai helpu pobl i gynllunio. Mae'r amserlen hon yn dibynnu ar reoli lledaeniad y feirws yn llwyddiannus; os yw'r dystiolaeth yn dangos nad yw cynnydd digonol yn cael ei wneud o ran rheoli'r feirws yna mae'n bosibl y bydd yn rhaid gohirio codi cyfyngiadau.

Ni allwn ragweld â sicrwydd llwyr beth fydd effaith codi cyfyngiadau. Os bydd y Llywodraeth, ar ôl codi cyfyngiadau, yn gweld cynnydd sydyn a phryderus yn y gyfradd heintio yna efallai y bydd yn rhaid iddi ail-osod rhai cyfyngiadau. Bydd yn ceisio gwneud hynny mewn ffordd mor gyfyngedig a thargededig â phosibl, gan gynnwys ymateb trwy ail-osod cyfyngiadau mewn ardaloedd daearyddol penodol neu mewn sectorau cyfyngedig lle mae'n gymesur i wneud hynny.

## Cam Un

Bydd y newidiadau i bolisi yn y cam hwn yn gymwys o ddydd Mercher 13 Mai yn Lloegr. Gan y gallai'r gyfradd heintio fod yn wahanol mewn gwahanol rannau o'r DU, dylid ystyried y canllawiau hyn ochr yn ochr â gofynion lleol maes iechyd a diogelwch y cyhoedd ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

*Gwaith*

**Hyd y gellir rhagweld, dylai gweithwyr barhau i weithio gartref yn hytrach nag yn eu gweithle corfforol arferol, lle bynnag y bo hynny'n bosibl**. Bydd hyn yn helpu i leihau nifer y cysylltiadau cymdeithasol ledled y wlad ac felly'n cadw trosglwyddiadau mor isel â phosibl. Mae pawb sy'n gweithio yn cyfrannu trethi sy'n helpu i dalu am y ddarpariaeth gofal iechyd y mae'r DU yn dibynnu arni. Mae pobl sy'n gallu gweithio gartref yn ei gwneud hi'n bosibl i bobl sy'n gorfod mynychu gweithleoedd yn bersonol wneud hynny wrth leihau'r risg o orlenwi ar gludiant ac mewn mannau cyhoeddus.

**Dylai pob gweithiwr na all weithio gartref deithio i'r gwaith os yw ei weithle ar agor**. Dylai sectorau'r economi y caniateir iddynt fod ar agor fod yn agored, er enghraifft mae hyn yn cynnwys cynhyrchu bwyd, adeiladu, gweithgynhyrchu, logisteg, dosbarthu ac ymchwil wyddonol mewn labordai. Yr unig eithriadau i hyn yw'r gweithleoedd hynny megis lletygarwch a manwerthu nad yw'n hanfodol y mae'r Llywodraeth yn galw arnynt i aros ar gau yn ystod y cam cyntaf hwn.[22]

---

[22] https://www.gov.uk/government/publications/further-businesses-and-premises-to-close/further-businesses-and-premises-to-close-guidance

Cyn gynted ag y bo’n ymarferol, dylai gweithleoedd ddilyn y canllawiau newydd “COVID-19 Secure”, fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, a gyhoeddir yr wythnos hon. Bydd y rhain yn sicrhau bod y risg o heintio mor isel â phosibl, gan ganiatáu i gynifer o bobl â phosibl ailafael yn eu bywoliaeth.

Mae'n dal i fod yn wir na ddylai **unrhyw un sydd â symptomau, waeth pa mor ysgafn ydynt, neu sydd ar aelwyd lle mae gan rywun symptomau, adael eu tŷ** i fynd i'r gwaith. Dylai'r bobl hynny hunanynysu, fel y dylai'r rhai hynny yn eu haelwydydd.

*Ysgolion*

Mae'r gyfradd heintio yn parhau i fod yn rhy uchel i ganiatáu ailagor ysgolion i'r holl ddisgyblion eto. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod plant sy'n agored i niwed (gan gynnwys plant mewn angen, y rhai sydd â chynllun Addysg, Iechyd a Gofal a'r rhai yr asesir eu bod fel arall yn agored i niwed gan ddarparwyr addysg neu awdurdodau lleol)[23] a phlant gweithwyr allweddol yn gallu mynychu'r ysgol, fel y'i caniateir ar hyn o bryd. Mae oddeutu 2% o blant yn mynychu'r ysgol yn bersonol[24], er bod pob ysgol yn gweithio'n galed i gyflwyno gwersi o bell.

Ond mae budd cymdeithasol mawr i blant sy'n agored i niwed, neu blant gweithwyr allweddol, fynychu'r ysgol: dylai awdurdodau lleol ac ysgolion **felly annog mwy o blant a fyddai'n elwa o fynychu'n bersonol i wneud hynny**.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn diwygio ei chanllawiau i egluro y gall gofal plant â thâl, er enghraifft nanis a gwarchodwyr plant, ddigwydd yn amodol ar y gallu i ddiwallu'r egwyddorion iechyd cyhoeddus yn Atodiad A, oherwydd mae'r rhain yn rolau lle nad yw'n bosibl gweithio gartref. Dylai hyn alluogi mwy o rieni sy'n gweithio i ddychwelyd i'r gwaith.

*Teithio*

Er bod y mwyafrif o deithiau i'r gwaith yn cynnwys pobl sy'n teithio naill ai ar feic, mewn car neu ar droed, mae cludiant cyhoeddus yn mynd â nifer sylweddol o bobl i'r gwaith ledled y wlad, ond yn arbennig mewn canolfannau trefol ac ar yr adegau brig. Wrth i fwy o bobl ddychwelyd i'r gwaith, bydd nifer y teithiau ar gludiant cyhoeddus hefyd yn cynyddu. Dyma pam mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda darparwyr cludiant cyhoeddus i ddod â gwasanaethau yn ôl tuag at lefelau cyn-COVID-19 cyn gynted â phosibl. Mae'r map ffordd hwn yn ystyried yr effaith ar drafnidiaeth gyhoeddus wrth leddfu mesurau fesul cam.

Wrth deithio dylai **pawb (gan gynnwys gweithwyr allweddol) barhau i osgoi cludiant cyhoeddus lle bynnag y bo modd**. Os gallant, dylai pobl yn hytrach ddewis beicio, cerdded neu yrru, er mwyn lleihau nifer y bobl y maent yn dod i gysylltiad agos â hwy. Mae'n bwysig bod llawer mwy o bobl yn gallu teithio o gwmpas yn hawdd trwy gerdded a beicio, felly bydd y Llywodraeth yn cynyddu cyllid ac yn darparu canllawiau statudol newydd i annog awdurdodau lleol i ehangu palmentydd, creu lonydd beicio naid, a chau rhai ffyrdd mewn dinasoedd i draffig ( ar wahân i fysiau) fel y mae rhai cynghorau eisoes yn ei gynnig.

[23] https://www.gov.uk/government/publications/closure-of-educational-settings-information-for-parents-and-carers/closure-of-educational-settings-information-for-parents-and-carers
[24] Coronafeirws (COVID-19): presenoldeb mewn addysg a lleoliadau blynyddoedd cynnar

**Rhaid dilyn canllawiau cadw pellter cymdeithasol ar gludiant cyhoeddus yn llym**. Yn yr un modd â gweithleoedd, dylai gweithredwyr cludiant ddilyn canllawiau priodol i wneud eu gwasanaethau'n COVID-19 Secure; bydd hwn yn cael ei gyhoeddi yr wythnos hon.

*Gorchuddion wyneb*

Wrth i fwy o bobl ddychwelyd i'r gwaith, bydd mwy o symud y tu allan i gartref uniongyrchol pobl. Mae'r symudedd cynyddol hwn yn golygu bod y Llywodraeth bellach yn cynghori y dylai pobl anelu at wisgo gorchudd wyneb mewn lleoedd caeedig lle nad yw cadw pellter cymdeithasol bob amser yn bosibl ac maent yn dod i gysylltiad ag eraill nad ydynt fel arfer yn cwrdd â nhw, er enghraifft ar gludiant cyhoeddus neu mewn rhai siopau. Gall gorchuddion wyneb brethyn a wneir **gartref helpu i leihau'r risg drosglwyddo mewn rhai amgylchiadau**. Ni fwriedir gorchuddion wyneb i helpu'r gwisgwr, ond amddiffyn rhag trosglwyddo'r clefyd yn anfwriadol i eraill os yw gennych chi yn asymptomatig.

Nid yw gorchudd wyneb yr un peth â masg wyneb fel y masgiau llawfeddygol neu'r anadlyddion a ddefnyddir fel rhan o gyfarpar diogelu personol gan weithwyr gofal iechyd a gweithwyr eraill. Rhaid i'r cyflenwadau hyn barhau i gael eu cadw ar gyfer y rhai sydd ei angen. Ni ddylai plant dan ddwy oed ddefnyddio gorchuddion wyneb, nac y chwaith y rhai hynny a fyddai'n cael anhawster yn eu defnyddio'n gywir, er enghraifft plant oedran ysgol gynradd heb gymorth, neu'r bobl hynny â chyflyrau anadlol. Mae'n bwysig defnyddio gorchuddion wyneb yn gywir a golchi dwylo cyn eu gwisgo ac ar ôl eu tynnu.[25]

*Mannau cyhoeddus*

Mae SAGE yn cynghori bod y risg o heintio yn yr awyr agored yn sylweddol is na dan do, felly mae'r Llywodraeth yn diweddaru'r rheolau fel y **gall pobl, yn ogystal â gwneud ymarfer corff,** nawr dreulio amser yn yr awyr agored yn amodol ar**:** beidio â chwrdd â mwy nag un person o'r tu allan i'w cartref; parhau i gydymffurfio â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol i aros dau fetr (6 troedfedd) i ffwrdd oddi wrth bobl y tu allan i'w cartref; hylendid dwylo da, yn arbennig o ran arwynebau a rennir; a bod y rhai sy'n gyfrifol am fannau cyhoeddus yn gallu rhoi mesurau priodol ar waith i ddilyn canllawiau COVID-19 Secure newydd.

Gall pobl wneud **ymarfer corff yn yr awyr agored gymaint o weithiau bob dydd ag y dymunant**. Er enghraifft, byddai hyn yn cynnwys pysgota a thenis. Ond ni fyddwch yn gallu defnyddio ardaloedd fel meysydd chwarae, campfeydd awyr agored neu leoliadau hamdden awyr agored â thocynnau, lle mae risg uwch o gyswllt agos a chyffwrdd ag arwynebau. Dim ond gyda hyd at un person o'r tu allan i'ch cartref y gallwch wneud ymarfer corff - mae hyn yn golygu na ddylech chwarae chwaraeon tîm, ac eithrio gydag aelodau o'ch cartref eich hun.

**Gall pobl yrru i fannau agored yn yr awyr agored waeth beth fo'u pellter**, cyn belled â'u bod yn parchu canllawiau cadw pellter cymdeithasol tra'u bod yno, oherwydd nid yw hyn yn golygu cyswllt â phobl o'r tu allan i'ch cartref.

Wrth deithio i fannau awyr agored, mae'n bwysig bod pobl yn parchu'r rheolau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac **nad ydynt yn teithio i wahanol rannau o'r DU** lle byddai'n

[25] ATODIAD A: Aros yn Ddiogel yTu Allan i'ch Cartref

anghyson â chanllawiau neu reoliadau a gyhoeddwyd gan y weinyddiaeth ddatganoledig berthnasol.

Efallai y bydd rhywfaint o risg i'r mesurau hyn; mae'n bwysig bod pawb yn parhau i ymddwyn yn gyfrifol, fel y mae'r mwyafrif helaeth wedi'i wneud hyd yma. Bydd y gyfradd heintio yn cynyddu os bydd pobl yn dechrau torri'r rheolau hyn ac, er enghraifft, yn cymysgu mewn grwpiau mewn parciau, a fydd yn sbarduno'r angen am gyfyngiadau pellach.

*Amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn glinigol*

Mae'n parhau i fod yn wir bod rhai pobl yn fwy agored i niwed yn glinigol i COVID-19 nag eraill. Mae'r rhain yn cynnwys y rhai dros 70 mlwydd oed, y rhai â chyflyrau cronig sy'n bodoli eisoes a merched beichiog.[26] **Dylai'r bobl hyn sy'n agored i niwed yn glinigol barhau i gymryd gofal arbennig i leihau'r cysylltiad ag eraill y tu allan i'w cartrefi, ond nid oes angen iddyn nhw gael eu gwarchod.**

Mae'r rhai hynny sy'n y grŵp hynod agored i niwed yn glinigol **yn cael eu cynghori'n gryf i aros gartref drwy'r amser ac osgoi unrhyw gyswllt wyneb yn wyneb**; yr enw ar hyn yw 'gwarchod'. Mae'n golygu peidio â gadael y tŷ na mynychu cynulliadau o gwbl, gydag eithriadau cyfyngedig iawn. Mae **Atodiad B** yn nodi mwy o fanylion am y canllawiau sy'n berthnasol i wahanol grwpiau agored i niwed ar hyn o bryd.

Mae'r Llywodraeth yn gwybod bod pobl yn cymryd cyngor am warchod o ddifrif ac yn ymwybodol iawn o'r ymrwymiad enfawr sydd ei angen i gadw draw oddi wrth deulu a ffrindiau. Yn anffodus, mae cyfradd bresennol trosglwyddo'r feirws yn golygu bod angen i'r Llywodraeth barhau i ofyn i'r canllawiau gael eu dilyn. I gydnabod yr her sy'n wynebu'r rhai sy'n gwarchod eu hunain, mae'r Llywodraeth yn gwneud y canlynol:

- **Darparu bwyd hanfodol i'r rhai na allant adael eu cartref**. Mae dros miliwn o flychau bwyd bellach wedi'u dosbarthu yn Lloegr gan gyfanwerthwyr i'r rhai sy'n gwarchod eu hunain ac sydd wedi gofyn am help gyda bwyd, gyda channoedd o filoedd yn rhagor i ddilyn yn yr wythnosau nesaf.[27] Mae'r Llywodraeth hefyd wedi trefnu bod y rhai sydd wedi dweud bod arnynt angen hynny yn gallu cael mynediad â blaenoriaeth at ddanfoniadau gan archfarchnadoedd.
- **Hwyluso cymorth gan wirfoddolwyr**. Mae hyd at 200,000 o alwadau y dydd wedi'u gwneud i'r rhai sy'n gwarchod yn Lloegr er mwyn cadarnhau eu hanghenion cymorth,[28] ac mae cynghorau yn helpu i'w cefnogi mewn ffyrdd eraill - gan gynnwys, mewn rhai achosion, trefnu galwadau rheolaidd gan wirfoddolwyr i'r rhai sydd wedi'u hynysu. Gall y rhai sy'n gwarchod eu hunain hefyd ofyn yn uniongyrchol am gymorth Ymatebwyr Gwirfoddol y GIG.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn ymwybodol y bydd yr her i'r rhai y gofynnir iddyn nhw warchod eu hunain yn dwysáu, pan - ymhen amser - fydd aelodau eraill o'r gymdeithas yn dychwelyd i agweddau ar eu bywydau arferol o ddydd i ddydd. Bydd y Llywodraeth yn parhau i adolygu

---

[26] Gellir dod o hyd i'r rhestr o'r rhai sy'n agored i niwed yn glinigol yma: https://www.gov.uk/government/publications/full-guidance-on-staying-at-home-and-away-from-others/full-guidance-on-staying-at-home-and-away-from-others#eel-decline
[27] Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol
[28] Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol

anghenion cefnogaeth y rhai sy'n gwarchod eu hunain a bydd y Llywodraeth yn parhau i roi cymorth i unigolion am gyn hired ag y byddan nhw angen ei help uniongyrchol.

Ynghyd â'r gefnogaeth mae'r Llywodraeth yn ei rhoi i'r rheini sy'n gwarchod eu hunain, bydd yn rhoi cymorth hanfodol i bobl eraill sy'n agored i niwed, megis y rhai sydd mewn perygl o fod yn unig. Mae'r Llywodraeth yn parhau i weithio i gefnogi'r grwpiau hyn ymhellach, gan gynnwys drwy ddarparu cymorth ariannol hanfodol i elusennau ar y rheng flaen sy'n gweithio yn y meysydd hyn. Mae gwefan GOV.UK yn rhoi gwybodaeth am yr ystod enfawr o gymorth sydd ar gael gan gynnwys gan awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol a chymunedol. Bydd y Llywodraethyn parhau i ddiweddaru GOV.UK wrth i wasanaethau a chymorth newydd ddod ar gael.

Wrth i'r DU adfer, bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod pobl ag anableddau yn gallu byw bywydau annibynnol ac nad ydynt yn cael eu hymyleiddio. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus a bydd yn ystyried eu hanghenion wrth i'r Llywodraeth greu amgylcheddau gwaith diogel ac ail-agor y system drafnidiaeth. Bydd y Llywodraeth yn sicrhau nad yw eu canlyniadau iechyd cyffredinol yn dioddef yn anghymesur.

*Gorfodi*

Mae'r Llywodraeth yn archwilio mesurau gorfodi llymach ar gyfer diffyg cydymffurfio, fel y mae wedi'i weld mewn llawer o wledydd eraill. Bydd y Llywodraeth yn gosod dirwyon uwch i adlewyrchu'r risg gynyddol i eraill o dorri'r rheolau wrth i bobl ddychwelyd i'r gwaith ac i'r ysgol. Bydd y Llywodraeth yn ceisio gwneud yr hyn sy'n cael ei ganiatáu a'r hyn na chaniateir yn gliriach i'r cyhoedd.

*Y Senedd*

Mae'n hanfodol bod y Senedd yn gallu parhau i graffu ar waith y Llywodraeth, ystyried agenda ddeddfwriaethol uchelgeisiol y Llywodraeth a deddfu i gefnogi'r ymateb i COVID-19. Mae'n rhaid i'r Senedd osod esiampl genedlaethol o'r modd y gallu busnes barhau yn yr arfer newydd hwn; ac mae'n rhaid iddo symud, ochr yn ochr â chanllawiau iechyd y cyhoedd, i ddychwelyd at fusnes fel rhan o'r cam nesaf hwn, gan gynnwys symud tuag at ragor o drafodaethau corfforol yn Nhŷ'r Cyffredin.

*Teithio rhyngwladol*

Wrth i lefel yr haint yn y DU leihau, ac wrth i'r Llywodraeth baratoi ar gyfer cynnydd mewn cyswllt cymdeithasol, bydd yn bwysig rheoli'r risg o ailgyflwyno trosglwyddiadau o dramor.

Felly, er mwyn cadw lefelau cyffredinol yr haint i lawr ac yn unol â nifer o wledydd eraill, bydd y Llywodraeth yn cyflwyno cyfres o fesurau a chyfyngiadau ar ffin y DU. Bydd hyn yn cyfrannu at gadw nifer cyffredinol y trosglwyddiadau yn y DU mor isel â phosibl. Yn gyntaf, ynghyd â mwy o wybodaeth am drefn cadw pellter cymdeithasol ar y ffin, bydd y Llywodraeth yn mynnu bod pawb sy'n cyrraedd yn rhyngwladol yn rhoi eu manylion cyswllt a manylion llety. Fe'u cynghorir yn gryf hefyd i lawrlwytho a defnyddio ap olrhain cyswllt y GIG.

Yn ail, bydd y Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i bob un sy'n cyrraedd yn rhyngwladol nad ydynt ar restr fer o eithriadau i hunan-ynysu yn eu llety am bedwar diwrnod ar ddeg wedi iddyn nhw gyrraedd y DU. Lle na all teithwyr rhyngwladol ddangos lle y byddent yn hunan-ynysu, bydd yn ofynnol iddynt wneud hynny mewn llety fydd yn cael ei drefnu gan y Llywodraeth. Mae'r

Llywodraeth yn gweithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i gydlynu'r broses weithredu ar draws y DU.

Bydd eithriadau bach i'r mesurau hyn yn eu lle i ddarparu ar gyfer diogelwch cyflenwad parhaus i'r DU ac er mwyn peidio ag amharu ar y gwaith o gefnogi diogelwch cenedlaethol neu seilwaith critigol ac i gyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol y DU. Bydd pob siwrnai yn yr Ardal Deithio Gyffredin hefyd wedi'u heithrio o'r mesurau hyn.

Ni fydd y mesurau teithio rhyngwladol hyn yn dod i rym ar 13 Mai ond byddant yn cael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl. Bydd manylion pellach, a chanllawiau, yn cael eu nodi'n fuan, a bydd y mesurau a'r rhestr o eithriadau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## Cam Dau

Bydd cynnwys ac amseriad ail gam yr addasiadau yn dibynnu ar yr asesiad diweddaraf o'r risg sy'n cael ei beri gan y feirws. Rhaid i'r pum prawf a nodwyd yn y bennod gyntaf gyfiawnhau newidiadau, ac mae'n rhaid eu gwarantu gan y lefel rhybudd presennol.

Byddant yn cael eu galluogi gan y rhaglenni a nodir yn y bennod nesaf ac, yn arbennig, drwy barhau i atgyfnerthu galluoedd profi ac olhrain, diogelu cartrefi gofal a chefnogi'r rhai sy'n agored iawn i niwed yn glinigol. Mae'n bosibl y bydd y dyddiadau a nodir isod yn cael eu gohirio os na fydd yn amodau hyn yn cael eu bodloni. Bydd newidiadau'n cael eu cyhoeddi o leiaf 48 awr cyn dod i rym.

Y gynorthwyo'r gwaith cynllunio, nod presennol y Llywodraeth yw na fydd yr ail gam yn cael ei gyflawni cyn dydd Llun 1 Mehefin, ar yr amod bod yr amodau hyn yn cael eu bodloni. Tan hynny, bydd y cyfyngiadau sydd ar waith ar hyn o bryd mewn perthynas a'r gweithgareddau isod yn parhau.

Bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau bod y newidiadau ar gyfer cam dau a thu hwnt yn cael eu cydlynu ar draws y DU. Fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau lle bydd mesurau gwahanol yn cael eu codi ar adegau gwahanol yn dibynnu ar yr amrywiant yn y gyfradd drosglwyddo ar draws y DU.

Y dybiaeth gynllunio ar gyfer Lloegr yw y gallai'r ail gam gynnwys cynifer o'r mesurau canlynol â phosibl, yn gyson â'r pum prawf. Dylai sefydliadau baratoi yn unol â hynny.

- **Dychwelyd yn rhaddol ar gyfer lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion.** Dylai ysgolion baratoi i ddechrau agor i fwy o blant o 1 Mehefin. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i blant allu dychwelyd i leoliadau blynyddoedd cynnar, ac i'r Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 6 fod yn ôl yn yr ysgol mewn meintiau llai, o'r pwynt hwn. Nod hyn yw sicrhau bod y plant ieuengaf, a'r rhai sy'n paratoi ar gyfer y cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd, yn cael yr amser hirach gyda'u hathrawon. Dylai ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach hefyd baratoi i ddechrau rhywfaint o gyswllt wyneb yn wyneb â disgyblion Blwyddyn 10 a 12 sydd ag arholiadau allweddol y flwyddyn nesaf, i gefnogi eu dysgu cartref, o bell. Uchelgais y Llywodraeth yw bod pob plentyn ysgol gynradd yn dychwelyd i'r ysgol cyn yr haf am fis os yn bosibl, er y bydd hyn yn cael ei adolygu'n gyson. Bydd yr Adran Addysg yn ymgysylltu'n agos ag ysgolion a darparwyr y blynyddoedd cynnar i ddatblygu rhagor o fanylion a chanllawiau ar sut y dylai ysgolion hwyluso hyn.

- **Agor siopau nad ydynt yn hanfodol** pryd a lle y mae'n ddiogel i wneud hynny, ac yn amodol ar y manwerthwyr hynny'n gallu dilyn y canllawiau Diogel rhag COVID-19 newydd. Y bwriad yw i hyn ddigwydd fesul cam o 1 Mehefin; bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi canllawiau pellach yn fuan ar y dull o weithredu fesul cam, gan gynnwys pa fusnesau fydd yn cael eu cynnwys ym mhob cam a'r amserlenni dan sylw. Nid yw pob sector arall sydd ar gau ar hyn o bryd, gan gynnwys lletygarwch a gofal personol, yn gallu ail-agor ar y pwynt hwn gan fod y risg o drosglwyddo yn yr amgylcheddau hyn yn uwch. Mae'n debygol y bydd sectorau o'r fath yn cael eu hagor fesul cam yn ystod cam tri, fel sydd wedi'i nodi isod.
- **Caniatáu i ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon gael eu cynnal y tu ôl i ddrysau caeedig** i'w darlledu, tra'n osgoi'r risg o gyswllt cymdeithasol ar raddfa fawr.
- **Ail-agor mwy o drafnidiaeth gyhoeddus leol mewn ardaloedd trefol, yn amodol ar fesurau llym** i gyfyngu ar y risg o haint yn y mannau hyn sydd fel arfer yn boblog cyn belled â phosibl.

*Cyswllt cymdeithasol a theuluol*

Ers 23 Mawrth mae'r Llywodraeth wedi gofyn i bobl adael y tŷ ar gyfer dibenion cyfyngedig iawn yn unig ac mae hyn wedi amharu'n rhyfeddol ar fywydau pobl.

Yn benodol, mae hyn wedi effeithio ar bobl ynysig a bregus, a'r rhai sy'n byw ar eu pen eu hunain. Wrth i'r cyfyngiadau barhau, mae'r Llywodraeth yn ystyried amrywiaeth o opsiynau i leihau'r effeithiau cymdeithasol mwyaf er mwyn gwneud y mesurau'n fwy cynaliadwy.

Er enghraifft, mae'r Llywodraeth wedi gofyn i SAGE archwilio p'un a allai, pryd a sut y gallai newid y rheoliadau i **ganiatáu pobl i ehangu eu grŵp aelwyd i gynnwys un aelwyd arall** yn yr un grŵp unigryw.[29]

Bwriad y newid hwn fyddai caniatáu i'r rhai sydd yn ynysu i gael ychydig mwy o gyswllt cymdeithasol, a lleihau effeithiau mwyaf niweidiol y cyfyngiadau cymdeithasol presenol, gan barhau i gyfyngu ar y risg o gadwynni trosglwyddo. Byddai hefyd yn helpu rhai teuluoedd i ddychwelyd i'r gwaith drwy, er enghraifft, ganiatáu i ddwy aelwyd rannu gofal plant.[30]

Gallai hyn fod yn seiliedig ar y model o "swigod" aelwyd yn Seland Newydd lle mae "swigen" unigol yn cynrychioli'r bobl rydych chi'n byw gyda nhw.[31] Fel yn Seland Newydd, y rhesymeg y tu ôl i gadw grwpiau o aelwydydd yn fach yw cyfyngu ar nifer y cysylltiadau cymdeithasol mae pobl yn eu cael ac, yn arbennig, cyfyngu ar y risg o drosglwyddo rhwng aelwydydd.[32]

Yn ogystal, mae'r Llywodraeth hefyd yn ystyried sut i alluogi pobl i ymgynnull mewn grwpiau ychydig yn fwy i hwyluso priodasau bach yn well.

---

[29] Nid yw'n iawn bod mewn grwpiau o nifer o aelwydydd: os ydy Aelwyd A yn cyfuno gydag Aelwyd B, ni all Aelwyd B hefyd ddewis bod mewn grŵp gydag Aelwyd C. Byddai hyn yn creu cadwyn a fyddai'n caniatáu i'r feirws ledaenu'n eang

[30] Mae effeithiau posibl y newid hwn ar y gyfradd drosglwyddo i'w harchwilio.

[31] https://covid19.govt.nz/alert-system/alert-level-3/

[32] Mae'r cysyniad hwn yn cael ei esbonio yn yr eglurwr 'creu eich swigen' gan Lywodraeth Seland Newydd: https://www.health.govt.nz/our-work/diseases-and-conditions/covid-19-novel-coronavirus/covid-19-novel-coronavirus-health-advice-general-public/managing-your-bubble-during-covid-19

Dros yr wythnosau nesaf, bydd y Llywodraeth yn ymgysylltu ar natur ac amseriad y mesurau yn y cam hwn, er mwyn ystyried yr amrywiaeth ehangaf posibl o safbwyntiau ar y ffordd orau o gydbwyso'r effeithiau iechyd, economaidd a chymdeithasol.

## Cam Tri

Bydd y cam nesaf yn digwydd hefyd pan fydd yr asesiad risg yn gwarantu gwneud addasiadau pellach i'r mesurau sy'n weddill. Rhagdybiaeth gynllunio bresennol y Llywodraeth yw na fydd y cam hwn yn gynharach na 4 Gorffennaf, ar yr amod bod y pum prawf yn cyfiawnhau rhai neu bob un o'r mesurau isod, a chyngor gwyddonol manwl pellach, a ddarperir yn nes at yr amser, ynghylch pa mor bell y gallwn fynd.

Yr uchelgais ar y cam hwn yw **agor o leiaf rai o'r busnesau a'r safleoedd sydd wedi gorfod cau, gan gynnwys gofal personol** (fel siopau trin gwallt a salonau harddwch) **lletygarwch** (fel darparwyr gwasanaeth bwyd, tafarndai a llety), **mannau cyhoeddus** (fel mannau addoli) a **chyfleusterau hamdden** (fel sinemâu). Dylent hefyd fodloni'r canllawiau Diogel rhag COVID-19. Efallai na fydd rhai lleoliadau sydd, oherwydd eu dyluniad, yn orlawn a lle gallai fod yn anodd cadw pellter, yn gallu ail-agor yn ddiogel o hyd ar y pwynt hwn, neu efallai y byddent yn gallu agor yn ddiogel yn rhannol yn unig. Serch hynny, bydd y Llywodraeth yn dymuno agor cynifer o fusnesau a mannau cyhoeddus ag y mae'r data a'r wybodaeth ar y pryd yn eu caniatáu.

Er mwyn hwyluso'r broses gyflymaf bosibl o ail-agor y mathau hyn o fusnesau risg uwch a mannau cyhoeddus, bydd y Llywodraeth yn trefnu ac yn treialu ail-agoriadau i brofi eu gallu i fabwysiadu'r canllawiau Diogel rhag COVID-19 newydd. Bydd y Llywodraeth hefyd yn monitro'n ofalus effeithiau ail-agor sefydliadau tebyg eraill mewn mannau eraill yn y byd, wrth i hyn ddigwydd. Bydd y Llywodraeth yn sefydlu cyfres o dasgluoedd i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid yn y sectorau hyn i ddatblygu ffyrdd o wneud y busnesau a'r mannau cyhoeddus yn Ddiogel rhag COVID-19.

# 5. Pedwar ar ddeg o raglenni ategol

Er mwyn cyflawni ein cynllun fesul cam, bydd y Llywodraeth yn darparu pedai rhaglen waith ar ddeg, y cyfan yn uchelgeisiol o ran eu cwmpas, eu graddfa a'u hamserlenni.

## 1. Capasiti a model gweithredu gofal a'r GIG

Yn gyntaf, er mwyn sicrhau'r hyder mwyaf wrth reoli achosion newydd, mae angen i'r Llywodraeth barhau i sicrhau capasiti gofal a'r GIG, a'i roi ar sail gynaliadwy.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod staff yn cael eu hamddiffyn gan yr offer diogelu personol (PPE) priodol, yn yr holl leoliadau GIG a gofal.

Mae hyn wedi gofyn am strategaeth ddiwydiannol newydd ar gyfer PPE. Ers dechrau'r argyfwng, mae'r Llywodraeth, gan weithio gyda'r GIG, diwydiant a'r Lluoedd Arfog, wedi danfon dros 1.16 biliwn o ddarnau o PPE i'r rheng flaen. Ar 6 Mai, cafodd dros 17 miliwn o eitemau PPE eu danfon i 258 o ymddiriedolaethau a sefydliadau. Drwy ei ddull gweithredu ar gyfer y DU gyfan, mae'r Llywodraeth yn gweithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i gefnogi a chydlynu'r gwaith o ddosbarthu PPE ledled y DU: mae miliynau o eitemau PPE wedi'u danfon i Ogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru. Ond mae llawer i'w wneud o hyd ac o dan arweinyddiaeth yr Arglwydd Deighton, bydd y Llywodraeth yn gwneud y canlynol:

- **Ehangu'r cyflenwad o dramor.** Mae'r Llywodraeth eisoes wedi sefydlu uned cyrchu PPE traws-lywodraethol, sydd bellach yn cael ei staffio gan dros 400 o bobl, i sicrhau llinellau cyflenwi o bob cwr o'r byd ac mae wedi cyhoeddi safonau trylwyr ar gyfer prynu nwyddau. Mae'r Llywodraeth yn gweithio ar frys i nodi ffynonellau newydd o PPE o farchnadoedd tramor, arallgyfeirio ffynonellau cyflenwi'r DU ac atgyfnerthu cadwyni cyflenwi'r DU ar gyfer y tymor hir. Mae timau DIT a FCO mewn swyddi ledled y byd yn chwilio am gyflenwadau newydd, yn lobïo llywodraethau i godi cyfyngiadau ar allforio ac yn helpu i gael danfoniadau yn ôl i'r DU.

- **Gwella gallu gweithgynhyrchu domestig.** Mae'r Arglwydd Deighton yn arwain ymdrech y Llywodraeth i ryddhau potensial diwydiant Prydain i weithgynhyrchu'r PPE ar gyfer y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn adeiladu ar y cyfleoedd gweithgynhyrchu mae'r Llywodraeth eisoes wedi'u nodi ac yn cyfrannu at yr ymdrech genedlaethol i fodloni'r galw digynsail. Mae'r Llywodraeth hefyd yn gweithio i gefnogi'r gwaith o gyflymu ymdrechion peirianyddol ar gyfer cwmnïau bach sy'n gallu cyfrannu at gyflenwadau. Ar hyn o bryd mae'r Llywodraeth mewn cysylltiad â thros 200 o weithgynhyrchwyr posibl yn y DU ac mae eisoes wedi derbyn cynnyrch gan weithgynhyrchwyr ardystiedig, newydd yn y DU.

- **Ehangu a gwella'r rhwydwaith logisteg ar gyfer danfon i'r rheng flaen.** Mae'r Llywodraeth wedi dwyn ynghyd y GIG, diwydiant a'r Lluoedd Arfog i greu rhwydwaith dosbarthu PPE enfawr, gan ddanfon offer hanfodol i 58,000 o leoliadau gofal iechyd gan

gynnwys meddygon teulu, fferyllfeydd a darparwyr gofal cymdeithasol. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ryddhau stoc i gyfanwerthwyr ar gyfer gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol ac wedi danfon dros 50 miliwn o eitemau PPE i fforymau gwydnwch lleol i'w helpu i ymateb i alw lleol brys. Mae'r Llywodraeth yn edrych yn barhaus ar sut mae'n gwella dosbarthiad ac ar hyn o bryd mae'n profi porth newydd i ddanfon yn fwy effeithiol i ddarparwyr llai.

Yn ail, bydd y Llywodraeth yn chwilio am fodelau gweithredu arloesol ar gyfer lleoliadau iechyd a gofal y DU, er mwyn eu cryfhau ar gyfer y tymor hir a'u gwneud yn fwy diogel i gleifion a staff mewn byd lle mae COVID-19 yn parhau i fod yn risg. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys defnyddio mwy o delefeddygaeth a monitro o bell i roi gofal ar lefel ysbyty i gleifion o gysur a diogelwch eu cartrefi eu hunain. Bydd capasiti gofal cymunedol a gwasanaethau cam i lawr hefyd yn cael eu hatgyfnerthu, er mwyn helpu i sicrhau y gall cleifion gael eu rhyddhau o ysbytai acíwt ar yr adeg gywir iddyn nhw. I'r perwyl hwn, bydd y Llywodraeth yn sefydlu tîm penodedig i weld sut y gellir cefnogi'r GIG a seilwaith iechyd ar gyfer proses adfer COVID-19 ac wedi hynny.

Yn drydydd, gan gydnabod bod cyflyrau iechyd sylfaenol a gordewdra yn ffactorau risg nid yn unig ar gyfer COVID-19 ond hefyd ar gyfer mathau eraill o salwch difrifol, bydd y Llywodraeth yn buddsoddi mewn atebion ataliol ac atebion wedi'u personoleiddio i iechyd gwael, gan rymuso unigolion i fyw bywydau mwy iach ac egïol. Bydd hyn yn cynnwys ehangu'r seilwaith ar gyfer teithio llesol (beicio a cherdded) ac ehangu gwasanaethau sgrinio iechyd, yn enwedig drwy raglen Archwiliad Iechyd y GIG, sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd.

Yn bedwerydd, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo o hyd i gyflawni ei maniffesto, gan gynnwys adeiladu 40 o ysbytai newydd, diwygio gofal cymdeithasol, recriwtio a chadw 50,000 yn fwy o nyrsys a chreu 50 miliwn o apwyntiadau meddygfa newydd.

Yn olaf, bydd y Llywodraeth yn parhau i atgyfnerthu sector gofal cymdeithasol y DU, er mwyn sicrhau bod y rhai sydd ei angen yn gallu cael y gofal maen nhw ei angen y tu allan i'r GIG. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i fuddsoddi £1biliwn mewn gofal cymdeithasol bob blwyddyn o'r Senedd hon er mwyn cefnogi'r galw cynyddol ar y sector. Drwy gael system gofal cymdeithasol effeithiol gall y GIG barhau i ryddhau pobl yn effeithlon o ysbytai pan na fydd angen cymorth meddygol arbenigol arnynt mwyach, gan ein helpu i sicrhau bod capasiti'r GIG ar gael i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ymrwymo i ddiwygio'r sector gofal cymdeithasol yn y tymor hwyr, fel nad oes unrhyw un yn cael eu gorfodi i werthu eu cartref i dalu am ofal. Rhaid i bawb sy'n manteisio ar ofal gael diogelwch a diogeledd.

Gyda'i gilydd, bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod y Llywodraeth, yn ogystal â pharatoi am adferiad y DU o COVID-19, yn dysgu'r gwersi o'r achos hwn ac yn sicrhau bod y GIG yn gallu gwrthsefyll unrhyw achosion yn y dyfodol.

## 2. Amddiffyn cartrefi gofal

Prif flaenoriaeth y Llywodraeth ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion yw rheoli haint yn ystod pandemig COVID-19. Mae cartrefi gofal i'r henoed yn arbennig o agored i niwed oherwydd bod eu preswylwyr fel arfer yn wynebu'r risg fwyaf oherwydd oedran a chydafiachusrwydd ac oherwydd bod natur cartrefi gofal yn golygu eu bod yn aml yn fannau caeedig lle gall y feirws ymledu'n gyflym. Ym mis Ebrill, cyhoeddodd y Llywodraeth gynllun gweithredu cynhwysfawr i gefnogi'r 25,000 o ddarparwyr gofal cymdeithasol i oedolion yn Lloegr drwy gydol yr achos COVID-19, gan gynnwys

cynyddu'r nifer o brofion, trawsnewid y ffordd mae PPE yn cael ei ddanfon i gartrefi gofal a helpu i leihau lledaeniad y feirws i gadw pobl yn ddiogel.[33]

Cefnogwyd hyn gan £3.2 biliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol, y gellir ei ddefnyddio i dalu am rai o'r costau cynyddol mae darparwyr yn eu hwynebu a phwysau ychwanegol ar ofal cymdeithasol; yn ogystal â £1.3 biliwn arall i'r GIG ac awdurdodau lleol gydweithio i ariannu anghenion ychwanegol pobl sy'n gadael yr ysbyty yn ystod y pandemig.

Er ei bod yn dal yn rhy uchel, mae nifer y marwolaethau bob dydd mewn cartrefi gofal yn Lloegr wedi bod yn gostwng dros y pythefnos diwethaf. Mae mwyafrif y cartrefi gofal yn dal i fod wedi'u hamddiffyn rhag unrhyw achosion a bydd y Llywodraeth yn parhau i gryfhau'r amddiffyniadau yn erbyn heintio presylwyr cartrefi gofal. Gan weithredu ar y cyngor gwyddonol diweddaraf, mae'r Llywodraeth yn cymryd camau pellach i gefnogi a gweithio gyda'r sector cartrefi gofal, gan adeiladu ar waith hyd yma. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- **Profi:** mae'r Llywodraeth yn darparu profion eang, cyflym ar gyfer holl breswylwyr cartrefi gofal symptomatig, a phob claf sy'n cael ei ryddhau o'r ysbyty cyn mynd i gartrefi gofal. Mae'n cynnig prawf COVID-19 i bob aelod o staff a phreswylydd ym mhob cartref gofal yn Lloegr, boed yn symptomatig ai peidio; erbyn 6 Mehefin, bydd pob cartref gofal ar gyfer y rhai dros 65 mlwydd oed wedi cael cynnig profion i'r preswylwyr a'r staff.
- **Atal a rheoli heintiau:** mae'r Llywodraeth yn camu i'r adwy i gefnogi cyflenwi a dosbarthu PPE i'r sector gofal, danfon cyflenwadau hanfodol i gartrefi gofal, hosbisau, cartrefi ail-sefydlu preswyl a sefydliadau gofal cymunedol. Mae'n cefnogi cartrefi gofal drwy roi arweiniad helaeth, ar-lein ac ar y ffôn, ar sut i atal a rheoli achosion o COVID-19. Mae hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau manwl ar sut i lanhau'n effeithiol ar ôl achosion a sut i wella arferion glanhau rheolaidd. Mae'r GIG wedi ymrwymo i ddarparu enw cyswllt i helpu i 'hyfforddi'r hyfforddwr' ar gyfer pob cartref gofal sy'n dymuno ei gael erbyn 15 Mai. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i bob cartref gofal gyfyngu ar yr holl ymweliadau gofal iechyd rheolaidd a'r rhai nad ydynt yn hanfodol a lleihau symudiadau staff rhwng cartrefi, er mwyn cyfyngu ar y risg o heintiad pellach.
- **Gweithlu:** mae'r Llywodraeth yn ehangu ar y gweithlu gofal cymdeithasol, drwy ymgyrch recriwtio, gan dalu'n ganolog am hyfforddiant ymsefydlu cyflym, gwneud gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rhad ac am ddim i'r rhai sy'n gweithio mewn gofal iechyd a datblygu hyfforddiant a phlatfform paru swyddi ar-lein.
- **Cymorth clinigol:** mae'r Llywodraeth yn cyflymu'r broses o gyflwyno gwasanaeth newydd o gymorth iechyd gwell mewn cartrefi gofal gan feddygon teulu a gwasanaethau iechyd cymunedol, gan gynnwys sicrhau bod gan bob cartref gofal glinigydd dynodedig i gefnogi anghenion clinigol eu trigolion erbyn 15 Mai. Mae'r GIG yn helpu cartrefi gofal i ymgymryd â dulliau ymgynghori ar fideo, gan gynnwys opsiynau ar gyfer war rithwir.
- **Canllawiau:** mae'r Llywodraeth yn darparu amrywiaeth o ganllawiau, gan gynnwys ar GOV.UK ac mae'n cyfeirio, drwy'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth, adnoddau ar gyfer cartrefi gofal, gan gynnwys cyngor wedi'i deilwra i'r rhai sy'n rheoli pandemig COVID-19 mewn gwahanol leoliadau gofal cymdeithasol a gyda grwpiau ag anghenion penodol, er enghraifft oedolion ag anableddau dysgu ac awtistiaeth.

---

[33] https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-covid-19-adult-social-care-action-plan/covid-19-our-action-plan-for-adult-social-care]

- **Rôl yr Awdurdod Lleol:** bydd pob awdurdod lleol yn sicrhau bod gan bob cartref gofal yn eu hardal fynediad i'r cymorth ychwanegol sydd ar gael iddynt er mwyn lleihau'r risg o haint a lledaenu'r haint yn eu cartref gofal, er enghraifft, y gall cartrefi gofal fanteisio ar yr hyfforddiant wyneb yn wyneb ar reoli haint sy'n cael ei gynnig gan y GIG, bod ganddynt arweinydd clinigol dynodedig, yn gwybod sut i gael gafael ar brofion ar gyfer eu staff a'u preswylwyr ac yn ymwybodol o ganllawiau ar arfer gorau ar gyfer gofalu am eu preswylwyr yn ystod y pandemig. Bydd unrhyw broblemau o ran cael gafael ar y cymorth hwn yn cael eu huwchgyfeirio i lefelau rhanbarthol a chenedlaethol i'w datrys fel bo'r angen.

## 3. Gwarchod y rhai mwyaf bregus yn ddoethach

Mae'r Llywodraeth yn cymryd agwedd ofalus, ond mae rhywfaint o risg gynhenid i'r rhai sy'n fwyaf agored i niwed o hyd. Mae tua 2.5 miliwn o bobl ledled y DU wedi'u nodi fel rhai sy'n agored iawn i niwed yn glinigol ac wedi cael cyngor i warchod eu hunain.[34]

Mae'r rhain yn bobl sydd fwyaf mewn perygl o gael salwch difrifol os ydynt yn dal COVID-19. Mae hyn yn golygu eu bod wedi cael cyngor i aros gartref drwy'r amser ac osgoi unrhyw gyswllt wyneb yn wyneb, tan ddiwedd Mehefin. Mae'r Llywodraeth ac awdurdodau lleol wedi cynnig cymorth ychwanegol i bobl sy'n gwarchod eu hunain, gan gynnwys danfon bwyd a chyflenwadau sylfaenol, gofal a chymorth i gael moddion, os na allan gael cymorth gan eu teulu a'u ffrindiau. Mae dros un miliwn o focsys bwyd wedi cael eu danfon yn Lloegr ers i'r rhaglen ddechrau.[35] Mae Ymatebwyr Gwirfoddol y GIG a gwirfoddolwyr lleol hefyd yn helpu i gefnogi'r grŵp hwn.

Bydd y canllawiau ar warchod a bod yn agored i niwed yn cael eu hadolygu wrth i'r DU symud drwy gamau strategaeth y Llywodraeth. Mae'n debygol y bydd y Llywodraeth yn parhau i gynghori pobl sy'n hynod agored i niwed yn glinigol i warchod eu hunain y tu hwnt i fis Mehefin. Er bod gwarchod yn bwysig i amddiffyn unigolion rhag y perygl o haint COVID-19, mae'r Llywodraeth yn cydnabod ei bod yn heriol i les ehangach pobl. Bydd y Llywodraeth yn adolygu'n ofalus yr effaith ar unigolion sydd wedi bod yn gwarchod eu hunain, y gwasanaethau maen nhw wedi'u cael, a'r camau nesaf sy'n briodol.

I'r rhai sydd angen gwarchod eu hunain am gyfnod hwy, bydd y Llywodraeth yn adolygu graddfa a chwmpas eu hanghenion a sut y gall y rhaglen gymorth fodloni'r rhain orau. Bydd y Llywodraeth hefyd yn ystyried canllawiau ar gyfer eraill a allai fod yn fwy agored i niwed gan COVID-19 a sut y gall gynorthwyo pobl i ddeall eu risg.

## 4. Targedu mesurau diogelu ar sail risg ac yn fwy effeithiol

Un ffordd o leihau effaith y mesurau diogelu a thargedu cyfyngiadau cymdeithasol yn well yw deall y lefelau risg ymhlith gwahanol rannau o'r boblogaeth - risg i'r hunan ac i bobl eraill.

Mae'n amlwg bod y feirws yn effeithio'n anghyfartal ar bobl hŷn, dynion, pobl sy'n gorbwyso a phobl â rhai cyflyrau iechyd sylfaenol. Mae hwn yn fater cymhleth, sef pam - fel y nodwyd ym Mhennod 1 -

[34] Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Gogledd Iwerddon
[35] Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol

bod Iechyd Cyhoeddus Lloegr yn arwain adolygiad brys i'r ffactorau sy'n effeithio ar ganlyniadau iechyd.

Ym mis Mawrth, ar sail data a thystiolaeth a oedd ar gael am y feirws ar y pryd, cynghorodd SAGE y dylai pobl hŷn, a'r rhai â chyflyrau meddygol sylfaenol, gymryd rhagofalon ychwanegol er mwyn lleihau'r risg o dal y feirws. Cynghorwyd pobl a ddiffiniwyd yn hynod agored yn glinigol i niwed i amddiffyn eu hunain, gan aros adref ar bob adeg ac osgoi pob cyswllt wyneb i wyneb anhanfodol. Cynghorwyd pobl sy'n agored yn glinigol i niwed, gan gynnwys y rhai dros 70 oed a menywod beichiog, i gymryd gofal i leihau cyswllt â phobl o'r tu allan i'w cartref.

Wrth i'n dealltwriaeth o'r feirws gynyddu, mae'r Llywodraeth yn monitro tystiolaeth newydd a bydd yn parhau i wrando ar gyngor ei ymgynghorwyr meddygol ar lefel y risg clinigol i wahanol grwpiau o bobl mewn perthynas â'r feirws. Wrth i'r Llywodraeth ddysgu rhagor, disgwylir iddo allu cynnig cyngor manylach ynghylch pwy sydd fwyaf wrth risg. Mae cyngor presennol y GIG ar bwy sydd fwyaf wrth risg niwed o ganlyniad i COVID-19 i'w weld yma.[36]

## 5. Monitro'r clefyd yn gywir a mesurau ymatebol

Bydd llwyddiant unrhyw strategaeth ar sail y cyfyngiadau cymdeithasol presennol wrth gynnal yr epidemig ar lefel ddichonadwy yn dibynnu ar allu'r Llywodraeth i fonitro'r pandemig yn gywir, yn ogystal â datgelu a thrin cyfran uchel o achosion. Bydd hyn yn hynod heriol yn ystod misoedd y gaeaf am fod COVID-19 yn rhannu nifer o symptomau ag annwyd cyffredin a'r ffliw.

Wrth i'r Llywodraeth ddiddymu cyfyngiadau dros y misoedd i ddod, rhaid bod y cyhoedd yn hyderus y gweithredir yn gyflym i fynd i'r afael ag unrhyw gynyddiadau lleol newydd o ran heintiadau, a bod gennym ddarlun clir yn genedlaethol o sut mae lefel yr heintiadau'n newid. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Llywodraeth yn sefydlu system monitro bioddiogelwch newydd, wedi'i harwain gan Gyd-ganolfan Bioddiogelwch sy'n cael ei sefydlu.

### Cyd-ganolfan Bioddiogelwch (JBC)

Bydd ymagwedd newydd y Llywodraeth at fioddiogelwch yn dod ag arbenigedd epidemiolegol y DU sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang ynghyd ac yn ei uno a'r gallu dadansoddol gorau ar draws y Llywodraeth mewn ymagwedd integredig.

Bydd gan y Ganolfan **swyddogaeth ddadansoddol annibynnol** a fydd yn dadansoddi ac yn asesu achosion o heintiadau mewn amser real ar lefel gymunedol, er mwyn galluogi ymyrraeth gyflym cyn i achosion dyfu. Bydd yn gweithio'n agos gyda busnesau a phartneriaid lleol i:

- casglu ystod eang o ddata i adeiladu darlun o gyfraddau heintio COVID-19 ledled y wlad – o brofi a data amgylcheddol a'r gweithle i brofi isadeiledd lleol (e.e. profion swabio);
- dadansoddi'r data hynny i greu darlun clir o newidiadau mewn cyfraddau heintio ledled y wlad, gan ddarparu dealllusrwydd ar y darlun cenedlaethol cyffredinol ac, yn hollbwysig, y cynyddiadau posib mewn cyfraddau heintio ar lefel gymunedol; a

[36] https://www.nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/people-at-higher-risk-from-coronavirus/whos-at-higher-risk-from-coronavirus/

- cynghori'r Prif Swyddogion Meddygol ynghylch newid lefel y Rhybudd COVID-19, a fydd yn eu tro'n cynghori Gweinidogion.

Bydd gan y Ganolfan hefyd **swyddogaeth ymateb** a fydd yn cynghori ar mynychter cyffredinol COVID-19 i helpu i lywio penderfyniadau i leihau cyfyngiadau mewn modd diogel. Bydd yn adnabod camau gweithredu penodol i fynd i'r afael â chynyddiadau lleol mewn heintiadau, mewn partneriaeth ag asiantaethau lleol – er enghraifft, cynghori Gweinidogion, busnesau a phartneriaid lleol i gau ysgolion neu weithleoedd lle mae cyfraddau heintio wedi cynyddu, i leihau'r risg o heintiadau pellach yn lleol.

Caiff camau gweithredu lleol a ysgogir gan ddadansoddi ac asesu'r JBC eu cyfeirio gan brotocolau clir ar sail y ddealltwriaeth wyddonol orau o COVID-19, a sut olwg fydd ar gamau gweithredu lleol effeithiol.

Bydd y JBC yn gyfrifol am bennu'r lefel Rhybudd COVID-19 newydd i gyfathrebu lefel gyfredol y risg yn glir i'r cyhoedd. **Y lefelau Rhybudd yw:**

| | |
|---|---|
| **Lefel 1** | Nid yw'n hysbys bod COVID-19 yn bresennol yn y DU |
| **Lefel 2** | Mae COVID-19 yn bresennol yn y DU, ond mae'r nifer o achosion a throsglwyddiadau yn isel |
| **Lefel 3** | Mae epidemig COVID-19 ar led yn gyffredinol |
| **Lefel 4** | Mae epidemig COVID-19 ar led yn gyffredinol; mae lefel y trosglwyddiadau'n uchel neu'n cynyddu'n gynt gynt |
| **Lefel 5** | Fel Lefel 4 ac mae risg materol o orlethu'r gwasanaethau gofal iechyd |

Bydd y Llywodraeth yn ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig i archwilio sut y gall y Ganolfan weithio fwyaf effeithiol ar draws y DU, wrth iddi gael ei sefydlu. Dros amser, bydd y Llywodraeth yn ystyried p'un ai y dylai'r JBC fod yn rhan o isadeiledd estynedig i fynd i'r afael â bygythiadau bioddiogelwch i'r DU, a p'un ai y dylai system lefel Rhybudd COVID-19 gael ei hehangu i gynnwys clefydau heintus posib eraill.

## 6. Profi ac olrhain

Nid yw profi torfol ac olrhain cysylltiadau, yn eu hunain, yn ddatrysiadau, ond gallent ganiatáu i ni ymlacio rhai cyfyngiadau cymdeithasol yn gynt drwy dargedu atal trosglwyddiadau yn fanylach. Mae gan y DU y gallu nawr i gynnal dros 100,000 o brofion y dydd, ac mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i gynyddu'r gallu hwn i 200,000 o brofion y dydd erbyn diwedd mis Mai.

Mae'r Llywodraeth wedi penodi'r Farwnes Harding o arwain Tasglu Profi ac Olrhain COVID-19. Bydd y rhaglen hon yn sicrhau, pan fydd rhywun yn datblygu symptomau COVID-19, y gall gael prawf yn gyflym a darganfod a oes ganddo'r feirws ai peidio – a gellir rhoi gwybod i'r bobl y maent wedi dod i gysylltu â hwy a rhoi cyngor. Bydd hyn yn:

- adnabod pwy sydd wedi cael ei heintio'n fwy cywir, i leihau'r nifer o bobl sy'n hunan-ynysu â symptomau ond nad ydynt wedi'u heintio mewn gwirionedd, ac i sicrhau bod y rhai â'r haint yn dilyn mesurau hunan-ynysu llym; ac
- yn sicrhau bod y bobl sydd wedi dod i gyswllt agos yn ddiweddar â pherson sydd wedi'i heintio yn cael cyngor yn gyflym ac, os bydd angen, yn hunan-ynysu, gan dorri'r gadwyn drosglwyddo yn gyflym.

Bydd angen gweithredu'r cylch profi ac olrhain hwn yn gyflym er mwyn cael yr effaith fwyaf, oherwydd yn berthynol i glefydau eraill (er enghraifft SARS), mae cyfran o ddioddefwyr COVID-19 bron yn sicr yn dod yn heintus i eraill cyn iddynt arddangos symptomau; ac mae bron yr holl ddioddefwyr ar eu mwyaf heintus i eraill cyn gynted ag y mae eu symptomau'n dechrau, hyd yn oed os ydynt yn ysgafn i ddechrau.

I system o'r fath weithio, rhaid creu sawl system a'u hintegreiddio'n llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys:

- profion swabio eang wedi'u cyflawni'n gyflym, y gellir eu cyflawni'n ddigidol er mwyn archebu'r prawf a derbyn y canlyniad yn ddiogel;
- gwasanaethau gofal iechyd awdurdodau lleol i ddarparu dimensiwn lleol gwerthfawr i brofi, olrhain cysylltiadau a chefnogi pobl y mae angen iddynt hunan-ynysu;
- olrhain cysylltiadau yn awtomatig drwy ap newydd COVID-19 y GIG er mwyn rhoi gwybod (yn ddienw) i ddefnyddwyr pan fod rhywun a fu mewn cyswllt agos â hwy wedi cael ei heintio; ac
- olrhain cysylltiadau ar-lein a dros y ffôn gan weithwyr iechyd proffesiynol a thrinwyr galwadau, a gweithio'n agos gyda llywodraeth leol, ill dau i gael gwybodaeth ychwanegol gan bobl sy'n adrodd symptomau am eu cysylltiadau diweddar a lleoedd maent wedi ymweld â nhw, ac i roi cyngor priodol i'r cysylltiadau hynny, gan weithio ochr yn ochr â'r ap a'r system brofi.

Dylai unrhyw â symptomau hunan-ynysu ar unwaith, yn ogystal â phawb yn eu cartref, a gwneud cais am brawf. Os ceir prawf negatif, ni fydd angen hunan-ynysu pellach. Unwaith iddynt gael eu hadnabod, ystyrir bod y cysylltiadau hynny wrth risg, a gofynnir iddynt hunan-ynysu, naill ai adeg prawf positif neu ar ôl 48 awr - pa un bynnag sydd gyntaf.


Mae achosion ymhlith pobl sydd wedi'u hallgáu yn gymdeithasol - boed drwy dlodi neu ddigartrefedd - yn debygol o fod yn hynod anodd eu datgelu ac yn niweidiol, oherwydd efallai na fydd gan y bobl yn y grwpiau hyn y gallu i ynysu pan yn dost.

Bydd y Llywodraeth yn gynyddol ychwanegu at brofion swabio antigenau, sy'n pennu a oes gan berson y feirws ai peidio, â phrofion gwrthgyrff, sy'n dangos a oedd person wedi dal y feirws o'r blaen, unwaith y bydd yn ddigon dibynadwy i wneud hynny.

Er y bydd y mesurau uchod yn cynnwys casglu data ar raddfa ddigynsail, fel y gwnaeth nifer o wledydd Asia yn dilyn SARS a MERS, bydd y Llywodraeth yn gweithredu mesurau diogelwch cadarn.

Un rhan o'r ymdrech olrhain fydd ap olrhain cysylltiadau gwirfoddol y GIG (ap NHS COVID-19, Ffigur 7) ar gyfer ffonau clyfar; bydd hyn yn helpu i gynyddu cyflymder ac effeithiolrwydd yr ymdrech olrhain.

Bydd gwybodaeth a gesglir drwy'r rhaglen Profi ac Olrhain, ynghyd â data ehangach o ffynonellau megis 111 ar-lein, yn rhan o set ddata genedlaethol graidd COVID-19. Mae crewyr nifer o apiau a gwefannau annibynnol sydd eisoes wedi lansio i gasgl data tebyg wedi cytuno i weithio'n agored gyda'r GIG ac maent wedi alinio'u cynnyrch a'u data fel rhan o'r ymdrech genedlaethol ganolog hon.




*Ffigur 7: **Ap NHS COVID-19** Model ar gyfer ap NHS COVID-19 mewn lansiad cenedlaethol.*

# 7. Dealltwriaeth wyddonol gynyddol

Bydd dealltwriaeth wyddonol well o COVID-19 yn ein helpu i weithredu'n fanylach ac yn hyderus i leihau ei ledaeniad, i wella triniaethau ac i'n helpu ni i ddatblygu brechlynnau. Bydd hefyd yn ein helpu i fesur risg heintiad yn well er mwyn i'r Llywodraeth allu addasu cyfyngiadau cymdeithasol fel nad ydynt yn rhy ofalus nac yn ddiofal.

Mae'r Llywodraeth yn buddsoddi'n helaeth mewn astudiaethau clinigol ac ymchwil genetig sylfaenol:

- Dyfarnodd galwad ymateb cyflym NIHR-UKRI ar y cyd, bellach wedi'i chau, £24.6 miliwn ar draws 27 o brosiectau, gan gynnwys profi ar gyfer brechlyn, datblygu therapïau a gwella dealltwriaeth o sut i drin COVID-19. Gan adeiladu ar y cylch ariannu cyflym cychwynnol ar gyfer ymchwil COVID-19, mae NIHR a UKRI yn cynnal galwad dreigl ar gyfer cynigion ymchwil COVID-19. Mae'r alwad i fentrau bach a chanolig (SME) academaidd wedi'u harwain gan y DU ac ymchwil diwydiannol ehangach a fydd yn mynd i'r afael ag ystod o fylchau/anghenion gwybodaeth COVID-19, ac a fydd yn arwain at fudd yn iechyd y cyhoedd y DU, ac o bosib yn rhyngwladol, o fewn blwyddyn.
- Mae'r Llywodraeth wedi recriwtio dros 9,000 o gleifion ar gyfer yr hap-dreial wedi'i reoli therapiwteg COVID-19 mwyaf yn y byd (Treial RECOVERY) i brofi a ellir defnyddio

therapiwteg ar gyfer clefydau eraill; cefnogir hyn gan grant ymateb cyflym gan yr alwad uchod. Mae rhagor o fanylion isod.

- Mae'r DU wedi lansio Consortiwm Genomeg COVID-19 gwerth £20 miliwn i fapio lledaeniad COVID-19 gan ddefnyddio dilyniannu genomig.
- Wedi'i ariannu gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a UKRI, bydd y rhaglen gydweithrediadol ACCORD (llwyfan Cyflymu Ymchwil a Datblygu COVID-19) yn cyflymu datblygiad cyffuriau newydd i gleifion sydd yn yr ysbyty â COVID-19, gan leihau'r amser a gymerir i sefydlu astudiaethau clinigol ar gyfer therapïau newydd o fisoedd i wythnosau. Y cyntaf o'r meddyginiaethau newydd i gael ei brofi drwy ACCORD yw Bemcentinib.
- Mae UKRI hefyd wedi agor galwad tymor byr (12-18 mis) am brosiectau sy'n mynd i'r afael ac yn lleddfu effeithiau iechyd, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol COVID-19. Fe'i lansiwyd ar 31 Mawrth; caiff sefydliadau cymwys ar draws y DU wneud cais, ac nid oes dyddiad cau.

## 8. Canllawiau "COVID-19 Secure"

Ers canol mis Ebrill, mae rhaglen ymgysylltu eang wedi bod ar y gweill rhwng y Llywodraeth, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdodau iechyd cyhoeddus, grwpiau cynrychioli busnes, undebau, cyflogwyr ac awdurdodau lleol i gytuno ar y ffordd orau o wneud gweithleoedd yn llai heintus.

Caiff y canllawiau eu seilio ar dystiolaeth gadarn - o'r hyn sydd wedi gweithio mewn mannau eraill yn y byd, a'r damcaniaethau gwyddonol gorau sydd ar gael. Mae'r canllawiau pwysicaf y gall pobl eu dilyn i gadw'n fwy diogel y tu allan i'w cartrefi wedi'u hatodi yn Atodiad A. Er enghraifft:

- Dylai unigolion **gadw draw o bobl y tu allan i'w cartref**, lle bynnag y bo'n bosib**.** Mae hyd ac agosrwydd cyswllt yn effeithio ar drosglwyddo; ni ddylai unigolion fod yn rhy agos at bobl am fwy nag ychydig o amser. Mae Iechyd Cyhoeddus Lloegr yn argymell y dylech chi geisio aros dau fetr i ffwrdd o bobl fel rhagofal.
- Mae'n hanfodol o hyd i **gadw dwylo a'r wyneb mor lân â phosib.** Dylai pawb olchi'u dwylo yn aml, gan ddefnyddio sebon a dŵr, a'u sychu'n drylwyr. Dylid osgoi cyffwrdd â'r wyneb. Dylid cario glanweithydd dwylo wrth deithio a'i ddefnyddio pan fo ar gael y tu allan i'r cartref, yn enwedig wrth fynd i mewn i adeilad ac ar ôl cyffwrdd arwynebau. **Dylid hefyd golchi dillad yn rheolaidd**, am fod peth tystiolaeth y gall y feirws aros ar ffabrigau.
- Mae'n bosib lleihau'r risg o drosglwyddo yn y gweithle drwy **gyfyngu'r nifer o bobl y bydd unrhyw berson yn dod i gyswllt â nhw yn rheolaidd.** Gall cyflogwyr helpu â hyn lle bo'n ymarferol drwy newid rotâu a phatrymau sifft i gadw timau llai a'u hynysu i raddau. Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu bod y feirws yn **llai tebygol o gael ei drosglwyddo mewn ardaloedd wedi'u gwyntyllu'n dda**.

Yn ogystal â chanllawiau COVID-19 ar gyfer gweithleoedd, bydd y Llywodraeth yn ymgynghori ac yn rhyddhau canllawiau tebyg i ysgolion, carchardai a mannau cyhoeddus eraill.

## 9 Mesurau cadw pellter gwell

Fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, yn ystod yr ail gyfnod, bydd y Llywodraeth yn raddol disodli'r cyfyngiadau cymdeithasol presennol â rhai wedi'u targedu'n well i gydbwyso orau'r tri nod a bennwyd ar ddechrau'r ddogfen hon. Bydd y Llywodraeth yn ymgysylltu'n eang cyn cynllunio a chyhoeddi pob cyfnod newydd o addasiadau.

## 10. Cymorth economaidd a chymdeithasol i gynnal bywoliaethau ac adfer yr economi

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi un o'r pecynnau cymorth mwyaf hael a chynhwysfawr yn y byd, gan roi sicrwydd a chymorth i'r rhai sy'n mynd yn dost neu'n methu gweithio ac yn bont i fusnesau er mwyn iddynt ddiogelu swyddi pobl.

Cyhoeddwyd cymorth i helpu miliynau o weithwyr a busnesau, i'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas a'r rhai ar yr incwm isaf, i berchnogion tai a rhentwyr, ac i'r gwasanaethau cyhoeddus a sectorau hanfodol. Ategwyd pecyn y Llywodraeth hefyd gan gamau'r sefydliad annibynnol, Banc Lloegr.

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws i atal cyflogwyr rhag gorfod diswyddo staff, ac mae'r Cynllun Cymorth Incwm i’r Hunangyflogedig drwy gyfnod Coronafeirws yn rhoi cymorth i bartneriaethau ac unig fasnachwyr cymwys, ac mae wedi cynyddu lwfans safonol Credyd Cynhwysol ac elfen sylfaenol Credydau Treth Gwaith £20 yr wythnos am un flwyddyn (bydd hyn yn golygu bod hawlwyr £1,040 y flwyddyn yn gyfoethocach). Yn ystod y pythefnos cyntaf ers lansio'r Cynllun Cadw Swyddi, mae dros 800,000 o gyflogwyr wedi gwneud cais am help i dalu cyflogau dros 6 miliwn a swyddi ar ffyrlo.

Mae'r Llywodraeth wedi cynyddu'r cymorth mae'n ei gynnig drwy'r system fudd-daliadau ar gyfer costau tai ac i'r hunangyflogedig, mae wedi cyflwyno moratoriwm ar ddadfeddiannu yn y sector rhentu preifat, mae wedi sefydlu cronfa galedi newydd ac mae wedi rhoi cymorth i bobl sy'n cysgu ar y stryd. Mae benthycwyr yn cynnig gwyliau morgais i bobl sy'n cael anawsterau â'u cyllid ac yn methu talu ad-daliadau o ganlyniad i COVID-19.

Mae hyn ar ben y cymorth i fusnesau, gan gynnwys:

- Gohirio TAW tan ddiwedd mis Mehefin sy'n rhoi dros £30 biliwn o arian parod, gohirio trethi hunangyflogedig o fis Gorffennaf i fis Ionawr y flwyddyn nesaf, gan ddarparu llif arian gwerth £13 biliwn a mwy na 64,000 o drefniadau Amser i Dalu wedi'u teilwra a gytunwyd gyda busnesau ac unigolion;
- Gwyliau ardrethi busnes gwerth £11 biliwn i fusnesau;
- Grantiau arian uniongyrchol gwerth £10,000 neu £25,000 i fusnesau bach, gan gynnwys yn y sectorau masnach, lletygarwch neu hamdden, gwerth cyfanswm o dros £12 biliwn;
- £1.25 biliwn o gymorth i gwmnïau arloesol;
- Cynllun ad-daliadau i ad-dalu SME am ran o'u costau SSP gwerth hyd at £2 biliwn i hyd at ddwy filiwn o fusnesau; a
- Pecyn o fenthyciadau a warentir ac a gefnogir gan y Llywodraeth, sy'n gwneud oddeutu £330 biliwn o warantau ar gael.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn cynorthwyo'r GIG a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn y frwydr yn erbyn y feirws. Hyd yma, mae mwy nag £16 biliwn o'r Gronfa Ymateb i COVID-19 wedi mynd tuag at yr ymdrech.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod nifer o elusennau'n gweithio ar y rheng flaen i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig ac mae wedi darparu pecyn gwerth £750 miliwn i alluogi pobl sy'n gweithio ar y rheng flaen i barhau i gefnogi cymunedau'r DU.

Mae'r mesurau hyn, fodd bynnag, yn gostus iawn, ac ni ellir cynnal hyn am gyfnod hir. Bydd yr union brisiau'n dibynnu ar ystod o ffactorau, gan gynnwys effaith yr argyfwng ar yr economi ehangach a lefel y ceisiadau ar gyfer pob cynllun. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi amcangyfrif y gallai cost uniongyrchol ymateb y Llywodraeth i COVID-19 godi i dros £100 biliwn yn 2020-21. Yn ogystal, mae cymorth gwerth oddeutu £330 biliwn (cyfwerth â 15% o GDP) ar ffurf gwarantau a benthyciadau ar gael i fusnesau.

Wrth i'r DU addasu i'r cyfyngiadau presennol, felly, bydd hefyd angen i'r Llywodraeth leihau'r mesurau cymorth economaidd wrth i bobl ddechrau dychwelyd i'r gwaith.

Bydd hefyd angen i'r Llywodraeth sicrhau bod cadwyni cyflenwi'r DU yn wydn, gan sicrhau bod gan y DU fynediad at ddigon o'r meddyginiaethau, PPE, cyfarpar profi, brechlynnau a thriniaethau angenrheidiol, hyd yn oed yn ystod cyfnod o brinderau byd-eang.

Ni fydd y byd yn dychwelyd i'r 'normal' ar ôl COVID-19; mae llawer o'r economi fyd-eang yn debygol o newid yn sylweddol. Bydd angen i'r DU fod yn hyblyg werth addasu a llunio'r byd newydd hwn os yw'r Llywodraeth am wella safonau byw ledled y wlad wrth iddi adfer wedi COVID-19.

## 11. Triniaethau a brechlynnau

Gellir defnyddio brechlyn neu driniaeth mewn sawl ffordd i helpu i leddfu'r epidemig. Yn fras, o ran iechyd y cyhoedd, gellir rhannu'r rhain yn strategaeth brechlyn sy'n lliniaru'r epidemig, strategaeth sy'n lliniaru'r clefyd, a thriniaethau i leihau'r risg neu ddifrifoldeb salwch y rhai sy'n dal y feirws neu o fewn rhai grwpiau cleifion.

Nod strategaeth brechlyn sy'n lliniaru'r epidemig yw ysgogi imiwnedd i'r haint ar lefel y boblogaeth, a thrwy hynny stopio'r epidemig. Er mwyn lliniaru'r epidemig, rhaid bod y brechlyn yn ddiogel iawn (oherwydd caiff ei ddefnyddio ar gyfer y boblogaeth gyfan) ac yn hynod effeithiol.

Nod strategaeth brechlyn sy'n lliniaru'r clefyd yw diogelu pob rhan neu rannau dethol o'r boblogaeth rhag effeithiau gwaethaf y clefyd, hyd yn oed os nad oes gan y brechlyn y gallu i gystadlu yn erbyn heintiad. Er enghraifft, gallai sicrhau bod y rhai sydd wedi cael y brechlyn yn llawer llai tebygol o farw o'r clefyd. Gallai'r epidemig barhau, ond â chyfradd farwolaethau llawer is a llawer llai o effeithiau iechyd hirdymor.

I symud i gyfnod tri cyn gynted â phosib, rhaid i'r Llywodraeth leihau'r amser a gymerir i ddatblygu, profi, gweithgynhyrchu a dosbarthu brechlyn dibynadwy neu driniaethau mor bell â phosib. Golyga hyn bedwar cam i'w gweithredu ar unwaith.

Yn gyntaf, mae'r Llywodraeth wedi lansio'r Tasglu Brechlynnau a Thriniaethau, a fydd yn cyflymu datblygiad brechlyn a thriniaethau i sicrhau, os daw un ar gael, y gellir ei gynhyrchu ar raddfa fawr a'i roi yn ddiogel i'r cyhoedd.

Yn ail, o ran triniaethau therapiwtig, ar hyn o bryd mae gan y DU dri threial cyffuriau cyfnod tri cenedlaethol allweddol ar y gweill – RECOVERY, PRINCIPLE a REMAP-CAP – yn profi mwy na deg gwahanol fath o gyffur, yn ogystal â rhaglenni cenedlaethol i werthuso cyffuriau mwy arbrofol sy'n ymddangos yn addawol. Ar hyn o bryd, RECOVERY, un o'r treialon cyfnod tri cenedlaethol allweddol, yw'r hap-dreial a reolir mwyaf yn y byd o therapiwteg COVID-19, wedi recriwtio 5,000 o gleifion mewn llai na phedair wythnos, ac mae bellach yn cynnwys dros 9,500.

Yn drydydd, mae'r Llywodraeth yn buddsoddi yng ngallu gweithgynhyrchu sofran y DU i sicrhau pan gaiff brechlyn neu driniaeth ar sail cyffuriau ei ddatblygu y gellir ei weithgynhyrchu ar raddfa ddigonol cyn gynted â phosib. Mae'r Llywodraeth, felly, yn gweithio gyda Thasglu BioIndustry Association i adolygu galluoedd gweithgynhyrchu'r DU, sy'n bodoli mewn mannau academaidd a diwydiannol, ochr yn ochr â chanolfannau cenedlaethol y DU. Bydd hyn yn cynnwys asesu lle gall y DU ailbwrpasu safleoedd presennol ar gyfer gwahanol fathau o frechlyn yn y tymor byr, a lle gellir cynyddu gallu yn sylweddol i ddarparu datrysiad tymor hirach. Bydd y Llywodraeth hefyd yn adolygu sut y gall gefnogi cyflymiad, ac ehangu gallu, y Ganolfan Gweithgynhyrchu ac arloesi Brechlynnau, fel ei bod yn weithredol yn gynt nag y cynlluniwyd ac yn gallu gweithgynhyrchu dosau ar lefel y boblogaeth.

Yn bedwerydd, os datblygir brechlyn llwyddiannus, bydd yn hollbwysig y gall y Llywodraeth ei gyflwyno cyn gynted ac mor ddiogel â phosib, i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Er bod nifer o frechlynnau COVID-19 posib, mae ymgeiswyr ac amseru'n ansicr o hyd, ac mae'r Llywodraeth yn gweithio ar yr egwyddor sylfaenol y dylai pobl gael eu brechu cyn gynted ag y bydd brechlyn diogel ar gael. Bydd hwn yn fenter logistaidd fawr, a bydd y Llywodraeth yn ceisio cyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) ar ei gyflwyno.

## 12. Gweithredu ac ymwybyddiaeth ryngwladol

Nid yw COVID-19 yn parchu ffiniau rhyngwladol a bydd y DU dim ond yn rhydd ohono'n gyfan gwbl pan fydd wedi ei drechu ym mhedwar ban byd. Ni fydd ein systemau iechyd ac economaidd yn adfer yn llawn tra bydd eraill yn parhau i ddioddef o'i effeithiau. Fel cenedl sy'n edrych allan i'r byd, mae er ein lles gorau, ac yn unol â'n natur, i fod ar flaen y gad wrth ymateb mewn ffordd fyd-eang a chydlynol.

O ganlyniad, rydym wedi cymryd yr awenau mewn perthynas â gweithredu byd-eang yn erbyn y pandemig, gan gynnwys drwy'r G7 a'r G20. Ar 4 Mai, bu'r DU yn cyd-arwain y digwyddiad Gwarantu Ymateb Rhyngwladol Byd-eang i'r Coronafeirws, gan ddod â 42 cenedl ynghyd i ymrwymo £6.5 biliwn. Ar y cyd â'r India, bu'r DU hefyd yn cyd-arwain gwaith datblygu Cynllun Gweithredu'r G20 a oedd, ymysg pethau eraill, yn galw am roi pecyn gwerth $200 biliwn(USD) o gymorth byd-eang gan Grŵp Banc y Byd a Banciau Datblygu Rhanbarthol ar waith yn gyflym. Mae hyn hefyd wedi arwain at drobwynt o ran gohirio ad-daliadau trin dyled i gredydwyr swyddogol, gwerth $12bn (USD), ar gyfer gwledydd lleiaf datblygedig y byd tan 2021.

Mae cyfraniadau'r DU hefyd wedi chwarae rôl ganolog wrth sicrhau bod yr ymateb byd-eang wedi'i ariannu a'i fod yn addas at y diben. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo £388m tuag at y galwad cyllido byd-eang gwerth $8bn (USD) ar gyfer brechiadau, therapiwteg a diagnostig. Mae hyn yn cynnwys y cyfraniad mwyaf oll gan unrhyw wlad at apêl Arloesi Parodrwydd am Epidemig y Gynghrair, sy'n arwain ymdrechion i ddatblygu brechiad ar gyfer COVID-19. Bydd y DU hefyd yn darparu £330m y flwyddyn dros y pum mlynedd nesaf i'r Gynghrair Brechiadau Fyd-eang (Gavi),

sy'n golygu mai'r DU fydd rhoddwr mwyaf y byd ac yn helpu i baratoi Gavi ar gyfer dosbarthu brechiad ar gyfer COVID-19 mewn gwledydd sy'n datblygu. Gan edrych tua'r dyfodol, mae'r DU hefyd yn cynnal yr Uwchgynhadledd Brechiadau Fyd-eang ar 4 Mehefin, a fydd yn ailgyflenwi cyllid Gavi ar gyfer y pum mlynedd i ddod.

Tan y bydd brechiad yn barod, bydd y Llywodraeth yn defnyddio statws y DU fel arweinydd ym maes datblygu rhyngwladol i helpu i ddiogelu lles poblogaethau mwyaf diamddiffyn y byd. Mae'r Llywodraeth wedi gwneud cyfraniad ychwanegol o hyd at £150m o gyllid cymorth y DU i Ymddiriedolaeth Atal a Chymorth mewn Trychineb y Gronfa Ariannol Ryngwladol i helpu gwledydd sy'n datblygu i fodloni eu had-daliadau dyled, gan hefyd ddyblu ei benthyciad gwerth £2.2 biliwn i'r Ymddiriedolaeth Lleihau Tlodi a Thwf, y mae'r ddau ohonynt bellach yn rhyddhau lle ar gyfer gwledydd isel eu hincwm i ymateb i'r argyfwng presennol. Mae'r Llywodraeth wedi darparu £276m i fynd i'r afael â'r effaith y pandemig ac achub bywydau mewn cymunedau mwyaf diamddiffyn y byd, gan gynnwys £220m a ddarperir i sefydliadau rhyngwladol (gan gynnwys y CU a Phwyllgor Rhyngwladol y Groes Goch) ac elusennau'r DU i achub bywydau ymhlith y rhai hynny sydd y tu hwnt i'r gwasanaethau iechyd traddodiadol. Mae'r DU hefyd yn anfon cymorth technegol ac arbenigedd fel rhan o'r ymateb i gynorthwyo'r CU a gwledydd sy'n datblygu.

Mae'r DU yn canolbwyntio ar effeithiau cynradd ac eilradd COVID-19 ar iechyd a maeth, cymdeithas a'r economi. Rydym yn gwybod y bydd COVID-19 yn gwaethygu anghydraddoldeb o ran rhyw, fel a welwyd yn dilyn ymlediad Ebola yng ngorllewin Affrica. Mae'r DU yn ymgyrchu dros ystyriaeth bendant ehangach o fenywod a merched, a chefnogaeth iddynt, ym mhob rhan o'r ymateb i COVID-19. Rydym yn darparu £10 miliwn i Gronfa Poblogaethau'r Cenhedloedd Unedig, UNFPA, i ddarparu gofal Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlu a fydd yn achub bywydau a gwasanaethau atal trais sy'n seiliedig ar ryw a'r ymateb iddo fel rhan o'n cymorth ehangach i Gynllun Ymateb Dyngarol y CU.

Mae'r argyfwng wedi amlygu bod masnach rydd yn hanfodol i les cenedlaethol y DU. Mae'r Llywodraeth yn gweithio i sicrhau bod gan bob gwlad fynediad at nwyddau hanfodol, gan gynnwys cyflenwadau meddygol a bwyd, er gwaethaf y cyfyngiadau ar symud sy'n ofynnol er mwyn atal y pandemig Wrth i'r DU ddechrau adfer, bydd y Llywodraeth yn arwain gwaith i ddatblygu cadwyni cyflenwi mwy cadarn er mwyn i ni allu parhau i elwa o systemau masnachu byd-eang rhydd ac agored, wrth leihau'r risgiau mewn sectorau hanfodol. Bydd y Llywodraeth hefyd yn parhau i arwain gwaith ar adferiad economaidd rhyngwladol, gan ymdrechu i wireddi economi'r DU a'r byd sy'n gryfach, yn lanach, yn fwy cynaliadwy ac yn fwy gwydn wedi'r argyfwng hwn.

## 13. Cyfathrebu â'r cyhoedd, dealltwriaeth a gorfodaeth

Mae'r cyfyngiadau cymdeithasol y mae'r Llywodraeth wedi gofyn i bawb gydymffurfio â nhw'n cynrychioli ymyrraeth eithriadol i ffordd arfer o fyw'r cyhoedd.

Wrth i'r Llywodraeth ddechrau addasu'r cyfyngiadau, mae'n wynebu dewis anodd: po fwyaf manwl y mae'r Llywodraeth yn targedu'r mesurau, cyflymaf y bydd hi'n bosib symud. Fodd bynnag, po fwyaf cymhleth y mae'r cais, anos fydd i bobl gydymffurfio â'r mesurau.

Mae "Arhoswch Adref" wedi bod yn neges syml a chlir. Serch hyn, wrth i gyswllt cymdeithasol ailddechrau, bydd yn rhaid i'r Llywodraeth ofyn i bobl weithredu mewn ffyrdd newydd. Bydd hyn yn gofyn am lefel uchel o ddealltwriaeth, os ydym yn mynd i barhau i weld lefelau uchel o gydymffurfiaeth y mae eu hangen ar y Llywodraeth i osgoi ail frig mewn heintiadau.

O ganlyniad, bydd y Llywodraeth yn buddsoddi mewn gwella addysg iechyd cyhoeddus y boblogaeth gyfan i sicrhau bod gan bawb yr wybodaeth a'r addysg y mae eu hangen i wneud penderfyniadau doeth am risg, a gweithredu mewn ffordd sy'n ddiogel iddyn nhw eu hunain ac i eraill. Yn hollbwysig i hyn, bydd yn rhaid i hyd yn oed y bobl hynny sydd â lefel risg bersonol isel barhau i ddilyn y rheolau a'r canllawiau er mwyn sicrhau na fyddant yn trosglwyddo'r haint i eraill.

Er bod strategaeth y Llywodraeth yn canolbwyntio i raddau helaeth ar leihau costau cydymffurfio â'r mesurau lle bynnag y bo modd, wrth i'r DU symud i'r cam nesaf, lle bydd yn rhaid i'r Llywodraeth ymddiried ym mhobl i gydymffurfio â'r cyfyngiadau cymdeithasol mwy manwl, bydd yn rhaid i'r Llywodraeth hefyd sicrhau mesurau gorfodi cadarn i atal a lleihau'r bygythiad gan y lleiafrif bach sy'n dewis peidio ag ymddwyn yn gyfrifol.

## 14. Strwythurau llywodraethu cynaliadwy

Mae'n bosib iawn mai COVID-19 yw'r prawf mwyaf o lywodraethau ledled y byd ers y 1940au. Wrth i'r Llywodraeth lywio llwybr tuag at adfer, rhaid iddi sicrhau ei bod hi'n dysgu'r gwersi cywir o'r argyfwng hwn ac'i bod hi'n gweithredu nawr i sicrhau bod strwythurau llywodraethu yn addas i ymdopi ag epidemig yn y dyfodol, gan gynnwys y posibilrwydd o ail ymlediad – er enghraifft, pandemig o ffliw – wrth i'r Llywodraeth barhau i ymateb i COVID-19.

Er mwyn gwneud hyn, bydd angen ail-greu strwythurau a sefydliadau'r llywodraeth yn gyflym i ymdrin â'r argyfwng hanesyddol hwn a hefyd datblygu seiliau newydd a hirdymor ar gyfer y DU, ac i helpu gweddill y byd.

Mae'r argyfwng wedi dangos llawer o rannau'r Llywodraeth ar eu gorau; er enghraifft, mae'r GIG wedi dangos natur greadigol ac egni mawr wrth weddnewid yn gyflym ei ddata, ei ddadansoddeg a'i brosesau caffael. Bellach, mae cyfle i ledaenu'r gwaith arloesol hwn ar draws y llywodraeth.

Cyn i'r feirws ein bwrw, roedd Cyllideb y Llywodraeth wedi amlinellu cynlluniau i fuddsoddi mewn isadeiledd, gan gynnwys buddsoddiadau sylweddol ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg a sgiliau. Adeiladwyd isadeiledd gan genedlaethau'r gorffennol y mae'r cyhoedd yn dibynnu arno erbyn hyn. Bellach, cyfrifoldeb y Llywodraeth yw datblygu isadeiledd iechyd cyhoeddus a'r llywodraeth – ym mhob cwrs o'r Deyrnas Unedig – a fydd yn amddiffyn y wlad am ddegawdau i ddod.

Nid COVID-19 fydd y clefyd mawr olaf a fydd yn berygl inni. Rhaid i'r Llywodraeth baratoi a dechrau ar waith datblygu nawr ar gyfer clefydau a allai fod yn fygythiad inni yn y dyfodol.

# 6. Sut gallwch chi helpu

Hyd yma, mae pobl y Deyrnas Unedig wedi addasu gyda chreadigrwydd a thrugaredd i'r gofynion mae COVID-19 wedi rhoi ar bob un ohonom. Bellach, mae'n rhaid i'r DU baratoi ar gyfer cyfnod estynedig o fyw gyda bygythiad y feirws a'i reoli; bydd hyn yn parhau i ofyn am gefnogaeth a chydymffurfiaeth gan bawb.

## Ymdrech ar y cyd

Mae'r bygythiad yn fygythiad a rennir; mae'r cyfrifoldeb i gadw pawb yn ddiogel yn un y mae pawb yn ei rannu.

Os bydd modd i'r Llywodraeth ddechrau addasu'r cyfyngiadau cymdeithasol, bydd yn ofynnol i bawb weithredu'n ystyriol ac yn gyfrifol i gadw'r gyfradd drosglwyddo (R) i lawr, a phrin yw'r gwallau y gellir eu gwneud.

Pan gaiff cyfyngiadau eu codi, os bydd pawb yn dewis gweithredu'n bwyllog ac yn unol â'r canllawiau a adolygwyd, bydd R yn parhau i fod yn isel, a bydd y gyfradd drosglwyddo'n lleihau ymhellach, a gall y Llywodraeth godi rhagor o gyfyngiadau.

Fodd bynnag, rhaid i'r ymdrech hon fod yn un a rennir gan bawb; byddai nifer fach yn unig o gychwyniadau newydd yn achosi i R godi'n uwch nag un, gan arwain at ailosod rhai o'r cyfyngiadau.

Wrth benderfynu pryd i addasu pob cyfyngiad, bydd y Llywodraeth yn cael ei llywio gan y dystiolaeth orau bosib a bydd, fel yn y ddogfen hon, yn dryloyw ynghylch sail y penderfyniad.

## Help llaw

Mae ymateb unigolion, cymunedau, elusennau a busnesau ledled y Deyrnas Unedig – wrth gamu i mewn ac estyn help llaw i gefnogi'r ymdrech genedlaethol – wedi bod yn aruthrol. Mae cyfleoedd o hyd i gefnogi'r ymdrechion sy'n ymwneud â COVID-19 mewn ffyrdd hyd yn oed yn fwy uniongyrchol.

I ddod o hyd i gyfleoedd i wirfoddoli gydag elusennau neu'r GIG, gweler: https://www.gov.uk/volunteering/coronavirus-volunteering

I gynnig cymorth i fusnesau, megis offer, gwasanaethau neu arbenigedd, gweler: https://www.gov.uk/coronavirus-support-from-business

I wneud cais am grantiau cyllid ar gyfer prosiectau tymor byr sy'n mynd i'r afael ag effaith COVID-19, gweler: https://www.ukri.org/funding/funding-opportunities/ukri-open-call-for-research-and-innovation-ideas-to-address-covid-19/

Os ydych chi'n glinigwr sy'n ystyried dychwelyd i'r GIG yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban neu'r HSC yng Ngogledd Iwerddon, gweler:

https://www.england.nhs.uk/coronavirus/returning-clinicians/ (yn Lloegr)

https://www.gov.scot/publications/coronavirus-covid-19-guide-for-health-professions-considering-a-return-to-the-nhs-scotland/ (yn yr Alban)

https://gov.wales/health-professionals-coronavirus (yng Nghymru)

https://www.health-ni.gov.uk/Covid-19-returning-professionals (yng Ngogledd Iwerddon)

# Atodiad A: Aros yn ddiogel y tu allan i'ch cartref

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu'r egwyddorion mae'n rhaid i chi eu dilyn er mwyn sicrhau bod yr amser y byddwch yn ei dreulio gydag eraill y tu allan i'ch cartrefi mor ddiogel â phosib (oni bai eich bod chi'n agored i niwed yn glinigol neu'n agored iawn i niwed, ac yn yr achosion hynny, dylech chi ddilyn y cyngor ar wahân ar GOV.UK). Eich cyfrifoldeb chi fydd mabwysiadu'r egwyddorion hyn pryd bynnag y bo modd. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth yn defnyddio'r egwyddorion hyn fel sail trafodaethau â busnesau, unedau, llywodraeth leol a llawer o randdeiliaid eraill i gytuno ar sut y dylid eu rhoi ar waith mewn lleoliadau gwahanol er mwyn eu gwneud yn fwy diogel. Mae angen i bob un ohonom, fel cwsmeriaid, ymwelwyr, staff neu gyflogwyr, wneud newidiadau er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r haint. Mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori â'u hymgynghorwyr gwyddonol i bennu'r egwyddorion a fydd yn llywio'r newidiadau hyn.

**Cadwch bellter rhyngoch chi â phobl nad ydynt yn rhan o'ch aelwyd chi,** gan gydnabod na fydd hyn yn bosib bob tro**.** Mae'r risg o heintio'n cynyddu yr agosach byddwch chi i unigolyn arall â'r haint **a** chyfanswm yr amser rydych chi'n ei dreulio mewn cysylltiad agos: mae'n annhebygol iawn y cewch eich heintio os ydych chi'n cerdded heibio i rywun arall yn y stryd. Mae Iechyd Cyhoeddus Lloegr yn argymell y dylech chi geisio aros 2m i ffwrdd o bobl fel rhagofal. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rheol ac mae'r wyddoniaeth yn gymhleth. Y peth pwysicaf yw peidio â bod yn rhyw agos i bobl am fwy na chyfnod byr o amser, cymaint ag y gallwch.

**Cadwch eich dwylo a'ch wyneb mor lân â phosib.** Golchwch eich dwylo'n rheolaidd gan ddefnyddio sebon a dŵr, gan eu sychu'n drylwyr. Defnyddiwch hylif diheintio pan fo modd y tu allan i'ch cartref, yn enwedig wrth i chi fynd i mewn i adeilad ac ar ôl i chi gyffwrdd ag wynebau. Rhaid osgoi cyffwrdd â'ch wyneb.

**Gweithiwch gartref os gallwch chi**. Gall llawer o bobl wneud y rhan fwyaf o'u gwaith neu eu gwaith yn gyfan gwbl gartref, gyda'r offer a'r addasiadau cywir. Dylai eich cyflogwr eich cyflogi i ddod o hyd i addasiadau rhesymol er mwyn i chi wneud hyn. Fodd bynnag, nid yw'n bosib gwneud yr holl swyddi gartref. Os yw eich gweithle ar agor ac nid oes modd i chi weithio gartref, gallwch deithio i'r gwaith.

**Ceisiwch osgoi bod wyneb yn wyneb â phobl os ydynt y tu allan i'ch aelwyd chi**. Rydych chi mewn perygl mwy o fod yn uniongyrchol agored i ddefnynnau anadlu rywun arall wrth iddo siarad neu besychu pan fyddwch chi o fewn 2m o rywun ac mewn cysylltiad wyneb yn wyneb â nhw. Gallwch leihau'r risg o heintio drwy aros ochr yn ochr yn hytrach na wynebu pobl.

**Ceisiwch leihau nifer y bobl rydych chi'n treulio amser gyda nhw mewn lleoliad gwaith lle bo modd.** Gallwch leihau'r risg o heintio yn y gweithle drwy leihau nifer y bobl rydych chi'n dod mewn i gysylltiad â nhw yn rheolaidd, a gall eich cyflogwr gefnogi hyn lle bo'n ymarferol drwy

newid patrymau sifftiau gweithio a rotâu i'ch paru chi â'r un tîm bob tro a rhannu pobl yn dimoedd llai a chynwysedig.

**Ceisiwch osgoi torfeydd o bobl.** Gallwch leihau'r risg o heintio drwy leihau nifer y bobl rydych chi'n dod i gysylltiad agos â nhw felly ceisiwch osgoi amseroedd teithio prysur iawn ar gludiant cyhoeddus lle bo modd, er enghraifft. Dylai busnesau gymryd camau rhesymol i atal pobl rhag ymgasglu, a gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio rhagor o fynedfeydd ac allanfeydd, a gwasgaru pan fydd pobl yn dod ac yn gadael lle bo modd.

**Os oes rhaid i chi deithio (i'r gwaith neu i'r ysgol, er enghraifft), meddyliwch am sut a phryd rydych chi'n teithio.** I leihau'r galw ar y rhwydwaith cludiant cyhoeddus, ceisiwch gerdded neu feicio lle bynnag y bo modd. Os yw'n rhaid i chi ddefnyddio cludiant cyhoeddus, dylech geisio osgoi'r amseroedd mwyaf prysur. Dylai cyflogwyr ystyried gwasgaru oriau gweithio ac ehangu cyfleusterau cadw beiciau, cyfleusterau newid a lleoedd parcio ceir i helpu.

**Golchwch eich dillad yn rheolaidd**. Mae tystiolaeth y gall y feirws aros ar ffabrig am ychydig o ddiwrnodau, er ei bod hi'n tueddu bod yn fyrrach na hynny. Felly, os ydych chi'n gweithio gyda phobl y tu allan i'ch aelwyd chi, golchwch eich dillad yn rheolaidd. Fel arfer, dylid dim ond ystyried newid dillad mewn gweithle pan fydd risg uchel o haint neu mae pobl sy'n agored iawn i niwed, megis mewn cartref gofal. Os oes angen i chi newid eich dillad, ceisiwch osgoi ymgasglu mewn ystafell newid.

**Cadwch leoedd dan do wedi'u hawyru'n dda.** Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y feirws yn llai tebygol o gael ei drosglwyddo mewn adeiladau sy'n cael eu hawyru'n dda ac yn yr awyr agored. Mewn tywydd da, ceisiwch adael ffenestri a drysau ar agor mewn lleoedd lle mae pobl o aelwydydd gwahanol yn dod mewn i gysylltiad â'i gilydd – neu symudwch weithgareddau i'r awyr agored os oes modd. Defnyddiwch ffan echdynnu allanoli sicrhau y caiff mannau eu hawyru'n dda a sicrhewch fod systemau awyru wedi'u gosod mewn ffordd sy'n mwyafu cyfradd llifo awyr iach. Gellir defnyddio systemau gwresogi ac oeri ar eu gosodiadau tymheredd arferol.

**Os gallwch hi, gwisgwch rywbeth sy'n gorchuddio eich wyneb mewn mannau caeëdig lle nad yw'n bosib cadw pellter cymdeithasol a lle byddwch yn dod i gysylltiad â phobl nad ydych chi fel arfer yn cwrdd â nhw. Mae'r hyn fwyaf perthnasol i gyfnodau byr dan do mewn ardaloedd lle mae torfeydd, er enghraifft ar gludiant cyhoeddus neu mewn rhai siopau.** Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw gwisgo gorchudd ar eich wyneb yn eich amddiffyn, ond mae'n bosib y gallai amddiffyn pobl eraill os ydych chi wedi'ch heintio ond nad ydych chi wedi datblygu symptomau eto. Os oes gennych symptomau COVID-19 (peswch a/neu dymheredd uchel). dylech chi a'ch aelwyd hunanynysu gartref: ni fydd gwisgo gorchudd ar eich wyneb yn newid hyn. Nid yw gorchudd wyneb yr un peth â mwgwd llawfeddygol neu anadlwyr wyneb a ddefnyddir fel rhan o gyfarpar diogelu personol gan weithwyr gofal iechyd ac eraill; dylai'r cyflenwadau hyn barhau i gael eu neilltuo ar gyfer y bobl hynny y mae eu hangen arnynt i'w hamddiffyn yn erbyn risgiau yn y gweithle, megis gweithwyr iechyd a gofal a'r rhai hynny sy'n gweithio mewn lleoliadau diwydiannol lle mae staff yn agored i beryglon llwch. Ni ddylai plant dan 2 oed ddefnyddio gorchuddion wyneb, nac y chwaith y rhai hynny a fyddai'n cael anhawster yn eu defnyddio'n gywir, er enghraifft plant oedran ysgol gynradd heb gymorth, neu'r bobl hynny â chyflyrau anadlol. Mae'n bwysig defnyddio gorchuddion wyneb yn gywir a golchi dwylo cyn eu gwisgo ac ar ôl eu tynnu.

Gallwch greu gorchudd wyneb gartref; y peth allweddol yw y dylai orchuddio eich ceg a'ch trwyn. Mae canllawiau ar sut i wneud hyn ar GOV.UK.

**Dylech ddilyn y cyngor a roddir i chi gan eich cyflogwr pan fyddwch yn y gwaith**. Mae gan gyflogwyr ddyletswydd i asesu a rheoli risgiau i'ch diogelwch chi yn y gweithle. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi canllawiau i'w helpu i wneud hyn. Mae hyn yn cynnwys sut i wneud addasiadau i'ch gweithle i'ch helpu i gadw pellter cymdeithasol. Yn ogystal, mae'n cynnwys canllawiau ar lanweithdra gan fod tystiolaeth yn awgrymu y gall y feirws oroesi am hyd at 72 awr ar wynebau. Felly, mae glanhau rheolaidd yn arbennig o bwysig yn achos wynebau a rennir, megis dolenni drysau neu fotymau mewn lifftiau ac ardaloedd a rennir megis ystafelloedd ymolchi, ceginau a mannau gwneud te neu goffi.Gallwch weld y canllawiau hyn ar GOV.UK a gofyn i'ch cyflogwr os oes gennych gwestiynau.

# Atodiad B: Tabl crynhoi: grwpiau agored i niwed COVID-19

| Grŵp | Esboniad | Canllawiau Cyfredol a Pharhaus | Cefnogaeth y Llywodraeth |
|---|---|---|---|
| **Pobl sy'n Eithriadol o Agored i Niwed yn Glinigol**<br>(Bydd pawb yn y garfan hon wedi derbyn cyfathrebiad gan y GIG) | Pobl a ddiffiniwyd ar seiliau meddygol fel pobl sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol, sy'n golygu mai nhw sydd yn y risg fwyaf o gael salwch difrifol. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys derbynwyr trawsblaniad organau solet; bobl sy'n derbyn cemotherapi; cleifion dialysis arennol; ac eraill. | Dilynwch ganllawiau gwarchod trwy aros gartref bob amser ac osgoi pob cyswllt wyneb yn wyneb nad yw'n hanfodol. Mae'r canllawiau hyn ar waith tan ddiwedd mis Mehefin. derbyn cemotherapi; cleifion dialysis arennol; ac eraill. | Cefnogaeth sydd ar gael o'r Rhaglen Warchod Genedlaethol, sy'n cynnwys cyflenwadau bwyd (trwy flychau bwyd a danfoniadau archfarchnadoedd â blaenoriaeth), danfoniadau fferyllfeydd a gofal.<br>Mae cefnogaeth ar gael trwy ap Ymatebwyr Gwirfoddol y GIG. |
| **Pobl sy'n Agored i Niwed yn Glinigol** | Pobl yr ystyrir eu bod mewn mwy o berygl o salwch difrifol o COVID-19. Mae pobl sy'n agored i niwed yn glinigol yn cynnwys y dilynol: pobl 70 oed neu'n hŷn, pobl â chlefyd yr afu; pobl â diabetes; menywod beichiog; ac eraill. | Arhoswch gartref gymaint â phosib. Os ewch chi allan, cymerwch ofal i leihau cyswllt ag eraill y tu allan i'ch aelwyd. | Amrywiaeth o gefnogaeth sydd ar gael tra bo mesurau ar waith, gan gynnwys gan awdurdodau lleol a thrwy grwpiau gwirfoddol a chymunedol. Mae cefnogaeth ar gael trwy ap Ymatebwyr Gwirfoddol y GIG. |
| **Pobl sy'n Agored i Niwed**<br>(Anghlinigol) | Mae ystod o bobl y gellir eu dosbarthu fel rhai sy'n "agored I niwed" oherwydd ffactorau anghlinigol, megis plant sydd mewn perygl o drais neu sydd ag anghenion addysgol arbennig; dioddefwyr cam-drin domestig; pobl sy'n cysgu allan; ac eraill. | Bydd angen i bobl yn y grŵp hwn ddilyn canllawiau cyffredinol ac eithrio pan fyddant hefyd yn agored i niwed yn glinigol neu'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol lle dylent ddilyn canllawiau fel y nodir uchod. | I'r rhai sydd ei angen, ystod o gefnogaeth a chanllawiau ar draws gwasanaethau cyhoeddus a'r system fudd-daliadau, gan gynnwys gan y Llywodraeth ganolog a lleol a'r sector gwirfoddol a chymunedol. |

CCS0520577950

978-1-5286-1911-0